ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Bwletin Ystadegol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Absenoldeb o Ysgolion yng Nghymru yn ôl Nodweddion Disgyblion, 2015/16

**30 Mawrth 2017**
**SB 18/2017**

Mae'r bwletin ystadegol hwn yn edrych ar y ffordd y mae nodweddion disgyblion o oedran ysgol gorfodol (5-15) yn effeithio ar eu habsenoldeb o ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir yng Nghymru. Darperir dadansoddiad manwl o absenoldeb cyson hefyd. Mae'r data yn cynnwys y flwyddyn academaidd gyfan ar gyfer ysgolion cynradd, a rhwng Medi a'r ŵyl banc ar ddiwedd Mai ar gyfer ysgolion uwchradd o 2008/09 i 2015/16.

Yn gyffredinol, nid oedd newid mewn absenoldeb anawdurdodedig mewn ysgolion uwchradd yn 2015/16, ond roedd wedi gostwng ymysg disgyblion sydd â datganiadau AAA neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy (Tabl 5).

Roedd **salwch**, **apwyntiadau meddygol/deintyddol** a **gwyliau teuluol** yn llai cyffredin fel rhesymau dros absenoldeb ymysg disgyblion sy'n absennol yn gyson nag ymysg yr holl ddisgyblion (Tablau 8a a 8b).

> **Disgybl sy'n absennol yn gyson** yw un a oedd yn absennol o leiaf 20 y cant o'r flwyddyn ysgol (mae rhagor o wybodaeth yn yr adran Nodiadau).

Roedd canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson wedi cynyddu mewn ysgolion cynradd ond yn dal i ostwng mewn ysgolion uwchradd a gynhelir (Tabl 1).

**Sir Gaerfyrddin** oedd â'r ganran uchaf o ddisgyblion sy'n absennol yn gyson o ysgolion cynradd. **Casnewydd** oedd â'r ganran uchaf ar gyfer ysgolion uwchradd (Tabl 2).

Roedd absenoldeb cyson yn fwy cyffredin ymysg disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim neu sydd ag anghenion addysgol arbennig (Tablau 3a a 3b).

Roedd y cyfraddau absenoldeb cyffredinol hefyd yn uwch ymysg disgyblion sydd â'r hawl i gael prydau ysgol am ddim neu sydd ag anghenion addysgol arbennig (Tablau 3a a 3b).

> Mae esboniad o'r **hawl i gael prydau ysgol am ddim** a'r categorïau ar gyfer disgyblion sydd ag **anghenion addysgol arbennig** yn yr adran Nodiadau.

## Am y bwletin hwn

Mae'r datganiad hwn yn dangos absenoldeb cyffredinol ac anawdurdodedig o ysgolion cynradd, gan gynnwys cyflwyniad o'r data fesul rheswm am absenoldeb. Mae hefyd yn adrodd ar absenoldeb cyson mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Dangosir data ar lefel Cymru, awdurdod lleol a chonsortiwm.

## Yn y bwletin hwn

### Absenoldeb yn ôl:

Absennol yn gyson 5
Rhywedd, hawl i gael prydau ysgol am ddim, grŵp blwyddyn a statws anghenion addysgol arbennig 11
Cefndir ethnig 17
Darpariaeth ar gyfer angen addysgol arbennig 19
Prif angen addysgol arbennig 21
Hawl i gael prydau ysgol am ddim 23
Rheswm dros absenoldeb 25
Nodiadau 29

Ystadegydd: Stephen Hughes ~ 0300 025 5060 ~ ysgolion.ystadegau@cymru.gsi.gov.uk

Ymholiadau oddi wrth y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau cyhoeddus: 0300 025 5050 Twitter: @ystadegaucymru

Tud

**Newid dros amser mewn disgyblion sy'n absennol yn gyson**

Tabl 1 Disgyblion sy'n absennol yn gyson o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir 5

Siart 1 Canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion a gynhelir a oedd yn absennol yn gyson 6

Tabl 2 Canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol a oedd yn absennol yn gyson mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir, yn ôl awdurdod lleol a chonsortiwm 7

Siart 2 Canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol a oedd yn absennol yn gyson mewn ysgolion cynradd a gynhelir, yn ôl awdurdod lleol, 2015/16 9

Siart 3 Canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol a oedd yn absennol yn gyson mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, yn ôl awdurdod lleol, 2015/16 10

**Absenoldeb yn ôl nodweddion disgyblion**

Tabl 3a Absenoldeb ymysg disgyblion sy'n absennol yn gyson ac ymysg yr holl ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd a gynhelir, yn ôl rhywedd, hawl i gael prydau ysgol am ddim, grŵp blwyddyn a statws anghenion addysgol arbennig, 2015/16 11

Tabl 3b Absenoldeb ymysg disgyblion sy'n absennol yn gyson ac ymysg yr holl ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, yn ôl rhywedd, hawl i gael prydau ysgol am ddim, grŵp blwyddyn a statws anghenion addysgol arbennig, 2015/16 14

Tabl 4a Absenoldeb ymysg disgyblion sy'n absennol yn gyson ac ymysg yr holl ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd a gynhelir, yn ôl cefndir ethnig, 2015/16 17

Tabl 4b Absenoldeb ymysg disgyblion sy'n absennol yn gyson ac ymysg yr holl ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, yn ôl cefndir ethnig, 2015/16 18

Tabl 5 Absenoldeb ymysg disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir, yn ôl darpariaeth ar gyfer angen addysgol arbennig 19

Tabl 6a Absenoldeb ymysg disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd a gynhelir, yn ôl prif angen addysgol arbennig 21

Tabl 6b Absenoldeb ymysg disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, yn ôl prif angen addysgol arbennig 22

Tabl 7 Absenoldeb ymysg disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir, yn ôl hawl i gael prydau ysgol am ddim 23

**Rhesymau dros absenoldeb**

Tabl 8a Dosbarthiad y rhesymau dros absenoldeb ymysg disgyblion sy’n absennol yn gyson ac ymysg yr holl ddisgyblion mewn ysgolion cynradd a gynhelir, yn ôl y rheswm dros 25

Tabl 8b Dosbarthiad y rhesymau dros absenoldeb ymysg disgyblion sy’n absennol yn gyson ac ymysg yr holl ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, yn ôl y rheswm dros 27

**Gwybodaeth ychwanegol**

Nodiadau

## Cyflwyniad

Mae Tabl 1 yn darparu gwybodaeth am ddisgyblion sy'n absennol yn gyson, gan gynnwys eu nifer a'u cyfraddau absenoldeb. Mae Siart 1 yn dangos sut mae canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson wedi newid dros amser. Mae Tabl 2 yn dangos canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson yn ôl awdurdod lleol. Mae Siartiau 2 a 3 yn rhoi awdurdodau lleol yn eu trefn yn ôl canran y disgyblion a oedd yn absennol yn gyson ynddynt yn 2015/16. Hon yw'r flwyddyn gyntaf i'r siartiau hyn gael eu cynnwys yn y bwletin ystadegol hwn.

Mae Tablau 3a a 3b yn rhannu disgyblion sy'n absennol yn gyson a'r holl ddisgyblion yn ôl rhywedd, yr hawl i gael prydau ysgol am ddim, grŵp blwyddyn a statws anghenion addysgol arbennig ac yn darparu cyfraddau absenoldeb y grwpiau disgyblion hyn ar gyfer 2015/16. Mae Tablau 4a a 4b yn gwneud yr un peth, ond yn rhannu'r ddau grŵp o ddisgyblion yn ôl eu cefndir ethnig.

Mae Tablau 5 i 7 yn dangos y cyfraddau absenoldeb cyffredinol a'r cyfraddau absenoldeb anawdurdodedig ar gyfer yr holl ddisgyblion dros y pum mlynedd diwethaf, gan rannu'r data hyn yn ôl statws anghenion addysgol arbennig, prif angen addysgol arbennig a hawl i gael prydau ysgol am ddim fel y gall darllenwyr weld sut mae cyfraddau absenoldeb wedi newid dros amser.

Mae Tablau 8a ac 8b yn cymharu'r rhesymau dros absenoldeb ar gyfer disgyblion sy'n absennol yn gyson â'r rhesymau a roddwyd gan yr holl ddisgyblion. Mae'r tablau hyn yn newydd ar gyfer 2015/16.

Mae'r holl dablau a siartiau hyn yn darparu dadansoddiad ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd.

**Tabl 1: Disgyblion sy'n absennol yn gyson o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir (a) (b)**

| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgolion Cynradd** | | | | | | | | |
| Nifer y disgyblion sy'n absennol yn gyson | 6,749 | 7,186 | 6,456 | 5,137 | 4,778 | 3,342 | 2,858 | 3,107 |
| Cyfanswm nifer y disgyblion | 196,895 | 194,337 | 193,885 | 194,897 | 197,113 | 201,891 | 205,049 | 208,532 |
| Canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson | 3.4 | 3.7 | 3.3 | 2.6 | 2.4 | 1.7 | 1.4 | 1.5 |
| Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd gan y rheini oedd yn absennol yn gyson, oherwydd: | | | | | | | | |
| Absenoldeb Awdurdodedig | 20.3 | 20.2 | 20.1 | 20.8 | 20.3 | 19.4 | 19.2 | 18.9 |
| Absenoldeb Anawdurdodedig | 8.2 | 7.7 | 7.8 | 7.1 | 7.4 | 8.2 | 8.3 | 9.0 |
| Absenoldeb Cyffredinol | 28.5 | 28.0 | 27.9 | 27.9 | 27.7 | 27.7 | 27.5 | 27.9 |
| Canran absenoldeb pob disgybl yn sgil y rheini oedd yn absennol yn gyson: | | | | | | | | |
| Absenoldeb Awdurdodedig | 11.9 | 12.5 | 11.5 | 10.2 | 9.0 | 7.6 | 6.6 | 7.0 |
| Absenoldeb Anawdurdodedig | 28.9 | 29.4 | 28.7 | 24.6 | 20.8 | 13.8 | 11.6 | 12.4 |
| Absenoldeb Cyffredinol | 14.3 | 14.9 | 13.8 | 11.9 | 10.6 | 8.7 | 7.6 | 8.2 |
| **Ysgolion Uwchradd** | | | | | | | | |
| Nifer y disgyblion sy'n absennol yn gyson | 16,584 | 15,619 | 14,971 | 12,293 | 10,399 | 8,061 | 7,094 | 6,119 |
| Cyfanswm nifer y disgyblion | 178,004 | 175,559 | 172,886 | 170,081 | 166,996 | 161,829 | 159,041 | 157,720 |
| Canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson | 9.3 | 8.9 | 8.7 | 7.2 | 6.2 | 5.0 | 4.5 | 3.9 |
| Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd gan y rheini oedd yn absennol yn gyson, oherwydd: | | | | | | | | |
| Absenoldeb Awdurdodedig | 21.6 | 21.9 | 22.0 | 21.4 | 20.6 | 19.5 | 18.8 | 18.6 |
| Absenoldeb Anawdurdodedig | 10.9 | 10.6 | 10.2 | 11.2 | 11.2 | 12.6 | 13.8 | 14.1 |
| Absenoldeb Cyffredinol | 32.5 | 32.6 | 32.2 | 32.6 | 31.8 | 32.1 | 32.6 | 32.7 |
| Canran absenoldeb pob disgybl yn sgil y rheini oedd yn absennol yn gyson: | | | | | | | | |
| Absenoldeb Awdurdodedig | 27.6 | 26.6 | 26.5 | 23.8 | 21.1 | 19.0 | 17.3 | 15.9 |
| Absenoldeb Anawdurdodedig | 58.5 | 58.9 | 59.8 | 58.3 | 54.0 | 48.8 | 48.4 | 43.4 |
| Absenoldeb Cyffredinol | 33.6 | 32.4 | 32.2 | 29.9 | 26.8 | 25.0 | 23.7 | 21.9 |

Ffynhonnell: Cofnod Presenoldeb Disgyblion, Llywodraeth Cymru

(a) Disgyblion sy'n absennol yn gyson yw disgyblion a oedd yn absennol am o leiaf 20 y cant o'r sesiynau hanner diwrnod. Ar gyfer 2015/16 mae hyn yn golygu bod disgyblion a oedd yn absennol yn gyson wedi colli o leiaf 76 o'r sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion cynradd neu o leiaf 62 o sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion uwchradd.

(b) Roedd disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn 5 i 15 oed ar 31 Awst cyn dechrau'r flwyddyn academaidd.

**Prif bwyntiau**

Yn 2015/16:

Mae canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson yn parhau i ostwng ar gyfer disgyblion.uwchradd


Mae canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson mewn ysgolion cynradd wedi cynyddu ychydig dros y flwyddyn diweddaraf, ond dal yn llai na hanner y canran pum mlynedd ynghgynt. disgyblion.uwchradd

Mae'r bwlch rhwng absenoldeb cyson mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn lleihau.

- Mae canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson mewn ysgolion uwchradd yn parhau i ostwng, a mae wedi gostwng pob blwyddyn ers 2007/08 (dim yn y tabl)
- Fodd bynnag, mae'r canran wedi cynyddu mewn ysgolion cynradd, y cynnydd cyntaf ers 2009/10.
- Roedd 1.5 y cant o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd a 3.9 y cant mewn ysgolion uwchradd yn absennol yn gyson yn 2015/16.

- Mae'r bwlch rhwng canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd wedi lleihau er 2010/11. Gwelir hyn yn haws yn Siart 1 sy'n dangos sut mae canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson wedi newid mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Mae disgyblion sy'n absennol yn gyson yn cyfrif am ganran uwch o absenoldeb mewn ysgolion uwchradd nag mewn ysgolion cynradd. Yn 2015/16, roedd disgyblion sy'n absennol yn gyson yn cyfrif am 21.9 y cant o'r absenoldeb mewn ysgolion uwchradd ac 8.2 y cant o'r absenoldeb mewn ysgolion cynradd. Mae hyn yn awgrymu bod mwy o'r absenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi'i achosi gan ddisgyblion sydd â chyfraddau absenoldeb is.

**Siart 1: Canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion a gynhelir a oedd yn absennol yn gyson**



## Tabl 2: Canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol a oedd yn absennol yn gyson mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir, yn ôl awdurdod lleol a chonsortiwm (a) (b) (c)

| | Ysgolion cynradd | | | | | Ysgolion Uwchradd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdod Lleol | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
| **Gogledd Cymru** | **2.0** | **2.1** | **1.7** | **1.6** | **1.5** | **6.2** | **5.5** | **4.8** | **4.3** | **3.7** |
| Sir Ynys Môn | 2.7 | 2.0 | 1.6 | 1.8 | 1.1 | 7.1 | 4.9 | 5.0 | 4.4 | 3.5 |
| Gwynedd | 1.7 | 1.8 | 1.4 | 1.1 | 0.6 | 6.6 | 4.5 | 3.2 | 2.7 | 1.9 |
| Conwy | 1.7 | 1.9 | 1.5 | 1.4 | 1.5 | 5.5 | 4.9 | 4.1 | 3.3 | 3.3 |
| Sir Ddinbych | 1.7 | 1.7 | 1.5 | 1.6 | 1.3 | 5.5 | 6.5 | 5.9 | 6.3 | 4.7 |
| Sir y Fflint | 2.1 | 2.3 | 2.1 | 1.8 | 2.0 | 5.6 | 5.0 | 4.7 | 4.0 | 4.1 |
| Wrecsam | 2.0 | 2.2 | 1.7 | 1.6 | 1.7 | 7.0 | 6.9 | 5.7 | 4.9 | 4.2 |
| **De-orllewin a Chanolbarth Cymru** | **2.5** | **2.4** | **1.5** | **1.2** | **1.4** | **6.7** | **6.3** | **4.6** | **4.1** | **3.7** |
| Powys | 1.5 | 1.4 | 0.7 | 0.7 | 0.9 | 5.2 | 4.5 | 2.9 | 2.8 | 2.7 |
| Sir Ceredigion | 1.1 | 1.4 | 0.8 | 0.8 | 0.6 | 3.2 | 3.4 | 2.6 | 2.8 | 2.2 |
| Sir Benfro | 2.0 | 2.5 | 1.7 | 1.5 | 1.6 | 5.3 | 7.1 | 5.4 | 5.7 | 5.3 |
| Sir Gaerfyrddin | 2.9 | 2.8 | 1.7 | 1.6 | 2.2 | 8.6 | 7.4 | 4.4 | 4.0 | 3.8 |
| Abertawe | 3.0 | 2.8 | 1.8 | 1.2 | 1.2 | 7.7 | 6.9 | 5.5 | 4.3 | 3.7 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2.8 | 2.4 | 1.2 | 1.2 | 1.5 | 6.7 | 5.8 | 5.0 | 4.6 | 3.8 |
| **Canol De Cymru** | **3.0** | **2.4** | **1.6** | **1.3** | **1.4** | **8.2** | **6.3** | **5.0** | **4.4** | **3.8** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2.7 | 2.7 | 1.5 | 1.1 | 1.1 | 7.2 | 6.9 | 4.4 | 3.5 | 3.1 |
| Bro Morgannwg | 1.8 | 1.7 | 1.1 | 1.0 | 1.1 | 5.8 | 5.1 | 4.2 | 3.3 | 2.6 |
| Rhondda, Cynon, Taf | 3.3 | 2.4 | 1.6 | 1.2 | 1.6 | 10.0 | 6.9 | 5.4 | 4.5 | 4.2 |
| Merthyr Tudful | 3.1 | 2.2 | 1.7 | 1.3 | 1.2 | 6.7 | 4.9 | 5.9 | 5.0 | 4.4 |
| Caerdydd | 3.3 | 2.5 | 1.9 | 1.4 | 1.5 | 8.5 | 6.2 | 4.9 | 5.1 | 4.1 |
| **De-ddwyrain Cymru** | **2.9** | **2.8** | **1.9** | **1.5** | **1.7** | **7.5** | **6.8** | **5.7** | **5.1** | **4.5** |
| Caerffili | 3.5 | 3.0 | 1.8 | 1.5 | 1.6 | 7.6 | 6.8 | 5.5 | 5.8 | 4.6 |
| Blaenau Gwent | 2.9 | 2.1 | 1.8 | 1.3 | 1.6 | 9.6 | 8.4 | 7.7 | 5.2 | 3.4 |
| Tor-faen | 2.1 | 2.4 | 2.1 | 1.5 | 1.9 | 7.0 | 6.2 | 5.4 | 4.3 | 4.4 |
| Sir Fynwy | 1.2 | 1.3 | 0.8 | 0.7 | 1.0 | 4.8 | 4.1 | 3.0 | 2.9 | 2.9 |
| Casnewydd | 3.5 | 3.7 | 2.3 | 1.9 | 1.9 | 8.1 | 7.7 | 6.5 | 5.8 | 5.6 |
| **Cymru** | **2.6** | **2.4** | **1.7** | **1.4** | **1.5** | **7.2** | **6.2** | **5.0** | **4.5** | **3.9** |

Ffynhonnell: Cofnod Presenoldeb Disgyblion, Llywodraeth Cymru

(a) Roedd disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn 5 i 15 oed ar 31 Awst cyn dechrau'r flwyddyn academaidd.
(b) Disgyblion sy'n absennol yn gyson yw disgyblion a oedd yn absennol am o leiaf 20 y cant o'r sesiynau hanner diwrnod. Ar gyfer 2015/16 mae hyn yn golygu bod disgyblion a oedd yn absennol yn gyson wedi colli o leiaf 76 o'r sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion cynradd neu o leiaf 62 o sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion uwchradd.
(c) Yn y tabl hwn mae disgyblion oedd ar gofrestr ysgolion mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn academaidd yn cael eu cyfrif yn erbyn pob un o'r awdurdodau lleol. Nid yw sesiynau a gollwyd oherwydd absenoldeb mewn un awdurdod lleol yn cael eu hadio at y rheini a gronnwyd mewn awdurdod lleol arall wrth asesu a yw disgybl o'r fath yn absennol yn gyson neu beidio.

### Prif bwyntiau

Yn 2015/16, ar gyfer awdurdodau lleol:

**Ysgolion cynradd**

2.2% oedd canran uchaf y disgyblion sy'n absennol yn gyson (Sir Gaerfyrddin).

0.6% oedd canran isaf y disgyblion sy'n absennol yn gyson (Gwynedd a Sir Ceredigion).


**Ysgolion uwchradd**

5.6% oedd canran uchaf y disgyblion sy'n absennol yn gyson (Casnewydd).


1.9% oedd canran isaf y disgyblion sy'n absennol yn gyson (Gwynedd).

- Yr awdurdod lleol a oedd â'r ganran uchaf o ddisgyblion sy'n absennol yn gyson mewn ysgolion cynradd yn 2015/16 oedd Sir Gaerfyrddin (2.2 y cant). Casnewydd oedd â'r ganran uchaf o ddisgyblion sy'n absennol yn gyson mewn ysgolion uwchradd (5.9 y cant).
- Gwynedd oedd â'r ganran isaf o ddisgyblion sy'n absennol yn gyson mewn ysgolion cynradd (0.6 y cant) ac mewn ysgolion uwchradd (1.9 y cant).
- Er bod gostyngiad mewn absenoldeb cyson mewn ysgolion uwchradd yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn 2015/16, roedd wedi cynyddu yn Sir y Fflint, Torfaen a Sir Fynwy Roedd canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson yn ysgolion uwchradd wedi cynyddu lai na 0.1 pwynt canran o ers 2014/15 ym mhob un o'r awdurdodau yma.
- Consortiwm De-ddwyrain Cymru oedd â'r ganran uchaf o ddisgyblion sy'n absennol yn gyson mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn 2015/16. Canol De Cymru a De-orllewin a Chanolbarth Cymru oedd â'r canran isaf mewn ysgolion cynradd. Gogledd Cymru a De-orllewin a Chanolbarth Cymru oedd â'r canran isaf mewn ysgolion uwchradd
- Mae Siartiau 2 a 3 yn dangos canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn 2015/16 yn ôl awdurdod lleol.

**Siart 2: Canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol a oedd yn absennol yn gyson mewn ysgolion cynradd a gynhelir, yn ôl awdurdod lleol, 2015/16**



**Siart 3: Canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol a oedd yn absennol yn gyson mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, yn ôl awdurdod lleol, 2015/16**



## Tabl 3a: Absenoldeb ymysg disgyblion sy'n absennol yn gyson ac ymysg yr holl ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd a gynhelir, yn ôl rhywedd, hawl i gael prydau ysgol am ddim, grŵp blwyddyn a statws anghenion addysgol arbennig, 2015/16 (a) (b) (c)

| | Nifer y disgyblion ar y gofrestr a oedd yn: | | Canran y disgyblion a oedd yn absennol yn gyson | Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd gan | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | y rheini sy'n absennol yn gyson, oherwydd | | | Pob disgybl, oherwydd | | |
| | Absennol yn gyson | Pob disgybl | | Absenoldeb Awdurdodedig | Absenoldeb Anawdurdodedi | Absenoldeb Cyffredinol | Absenoldeb Awdurdodedig | Absenoldeb Anawdurdodedi | Absenoldeb Cyffredinol |
| **Rhyw** | | | | | | | | | |
| Bechgyn | 1,687 | 105,229 | 1.6 | 19.7 | 8.8 | 28.5 | 4.0 | 1.1 | 5.1 |
| Merched | 1,391 | 100,802 | 1.4 | 17.7 | 9.2 | 26.9 | 3.9 | 1.1 | 5.0 |
| Disgyblion (d) | 3,107 | 208,532 | 1.5 | 18.9 | 9.0 | 27.9 | 4.0 | 1.1 | 5.1 |
| **Hawl i Brydau Ysgol am Ddim** | | | | | | | | | |
| Yn gwybod eu bod yn gymwys i gael PYADd | 1,761 | 39,133 | 4.5 | 17.7 | 10.4 | 28.0 | 5.4 | 1.9 | 7.3 |
| Disgyblion eraill | 1,317 | 166,898 | 0.8 | 20.2 | 7.2 | 27.4 | 3.7 | 0.9 | 4.5 |
| Cyfanswm (d) | 3,107 | 208,532 | 1.5 | 18.9 | 9.0 | 27.9 | 4.0 | 1.1 | 5.1 |
| **Grŵp Blwyddyn y Cwricwlwm Cenedlaethol** | | | | | | | | | |
| Dan flwyddyn 1 | 8 | 133 | 6.0 | 22.4 | 2.5 | 24.9 | 6.0 | 0.8 | 6.8 |
| Blwyddyn 1 | 583 | 35,296 | 1.7 | 19.1 | 8.8 | 27.9 | 4.4 | 1.1 | 5.5 |
| Blwyddyn 2 | 503 | 34,763 | 1.4 | 18.6 | 8.9 | 27.5 | 3.9 | 1.1 | 5.0 |
| Blwyddyn 3 | 462 | 35,559 | 1.3 | 17.5 | 9.8 | 27.3 | 3.9 | 1.1 | 5.0 |
| Blwyddyn 4 | 482 | 34,023 | 1.4 | 19.2 | 8.8 | 28.0 | 3.9 | 1.1 | 5.0 |
| Blwyddyn 5 | 496 | 33,315 | 1.5 | 18.9 | 9.5 | 28.4 | 3.9 | 1.0 | 4.9 |
| Blwyddyn 6 | 544 | 32,941 | 1.7 | 19.1 | 8.5 | 27.6 | 3.9 | 1.0 | 4.9 |
| Blwyddyn 7 a throsodd | 0 | * | * | . | . | . | * | * | * |
| Cyfanswm (d) | 3,107 | 208,532 | 1.5 | 18.9 | 9.0 | 27.9 | 4.0 | 1.1 | 5.1 |
| **Statws Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)** | | | | | | | | | |
| Datganiad AAA | 169 | 3,395 | 5.0 | 26.2 | 4.2 | 30.4 | 6.1 | 1.1 | 7.2 |
| Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 631 | 16,927 | 3.7 | 21.2 | 8.4 | 29.7 | 5.2 | 1.3 | 6.5 |
| Gweithredu gan yr Ysgol | 822 | 31,171 | 2.6 | 17.4 | 10.8 | 28.2 | 4.6 | 1.5 | 6.1 |
| Dim AAA wedi'u nodi | 1,456 | 154,538 | 0.9 | 17.6 | 8.8 | 26.4 | 3.7 | 1.0 | 4.7 |
| Cyfanswm (d) | 3,107 | 208,532 | 1.5 | 18.9 | 9.0 | 27.9 | 4.0 | 1.1 | 5.1 |

Ffynhonnell: Cofnod Absenoldeb Disgyblion a CYBLD, Llywodraeth Cynulliad Cymru

(a) Roedd disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn 5 i 15 oed ar 31 Awst cyn dechrau'r flwyddyn academaidd.


(b) Disgyblion sy'n absennol yn gyson yw disgyblion a oedd yn absennol am o leiaf 20 y cant o'r sesiynau hanner diwrnod. Ar gyfer 2015/16 mae hyn yn golygu bod disgyblion a oedd yn absennol yn gyson wedi colli o leiaf 76 o'r sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion cynradd neu o leiaf 62 o sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion uwchradd.

(c) Crëwyd y data drwy baru cofnodion yn y Cofnod Presenoldeb Disgyblion â'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Nid oedd disgyblion wedi'u cynnwys os nad oedd yn bosibl paru cofnodion, felly gall cyfansymiau fod yn wahanol i ffigurau a gyhoeddwyd mewn mannau eraill. Mae gwybodaeth yn yr adran nodiadau am nifer y cofnodion disgyblion a oedd wedi'u hepgor.

(d) Mae'r cyfansymiau yn cynnwys data ar gyfer pob disgybl ar y Cofnod Presennol Disyblion, nid dim ond y rheini yr oedd modd eu paru â CYBLD. Felly mae'n bosibl nad yw'r is-gategorïau yn cyd-fynd â'r cyfanswm.

"*" yn golygu bod yr eitem data yn datgelu gwybodaeth.


## Roedd bechgyn yn fwy tebygol o fod yn absennol yn gyson na merched




- Roedd canran ychydig uwch o fechgyn yn absennol yn gyson o ysgolion cynradd a gynhelir nag o ferched. Yn 2015/16, roedd 1.6 y cant o fechgyn mewn ysgolion cynradd a gynhelir yn absennol yn gyson, o'i gymharu ag 1.4 y cant o ferched.
- Roedd cyfradd yr absenoldeb awdurdodedig yn uwch ymysg disgyblion gwrywaidd sy'n absennol yn gyson, tra oedd absenoldeb anawdurdodedig yn uwch ymysg disgyblion benywaidd sy'n absennol yn gyson.
- Gan edrych ar yr holl ddisgyblion, roedd y cyfradd absenoldeb anawdurdodedig o ysgolion cynradd a gynhelir yr un fath ar gyfer bechgyn a merched yn 2015/16, ond roedd y cyfraddau absenoldeb awdurdodedig a holl absenoldeb tipyn yn uwch ar gyfer bechgyn.

## Roedd disgyblion ysgol gynradd sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim (PYADd) pum gwaith yn fwy tebygol o fod yn absennol yn gyson na disgyblion eraill

- Mewn ysgolion cynradd a gynhelir yn 2015/16, roedd disgyblion sy'n gymwys am PYADd yn fwy tebygol o fod yn absennol yn gyson na'r rheini sydd heb hawl i gael PYADd. Roedd canran y disgyblion sy'n gymwys am PYADd a oedd yn absennol yn gyson tua 5 gwaith yn uwch na honno ar gyfer disgyblion sydd heb hawl i gael PYADd.




- Roedd y cyfraddau am absenoldeb awdurdodedig ac anawdurdodedig yn uwch ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n gymwys am PYADd nag ar gyfer y rheini sydd heb hawl i gael PYADd. Fodd bynnag, yn achos disgyblion sy'n absennol yn gyson o ysgolion cynradd a gynhelir, roedd cyfradd yr absenoldeb awdurdodedig yn uwch ymysg disgyblion sydd heb hawl i gael PYADd.


## Nid yw absennol yn gyson yn amrywio llawer yn ôl blwyddyn y cwricwlwm cenedlaethol

- Gan edrych ar grwpiau blwyddyn 1 i 6 mewn ysgolion cynradd a gynhelir, nid oedd nemor ddim gwahaniaeth rhyngddynt o ran canran y disgyblion a oedd yn absennol yn gyson. Roedd canran y disgyblion a oedd yn absennol yn gyson ym mhob un o'r grwpiau blwyddyn hyn yn amrywio o 1.3 i 1.7 y cant.

- Disgyblion sy'n absennol yn gyson ym mlwyddyn 6 a oedd â'r gyfradd absenoldeb uchaf yn gyffredinol, o gymharu blynyddoedd 1 i 6. Gan edrych ar yr holl ddisgyblion, ym mlwyddyn 1 yr oedd y gyfradd absenoldeb uchaf yn gyffredinol. Ond am fod nifer y disgyblion yn y grwpiau blwyddyn o dan 1 neu'n uwch na 6 yn fach, nid yw'n ddoeth eu cymharu.

**Roedd disgyblion gyda statws anghenion addysgol arbennig (AAA) yn fwyaf tebygol o fod yn absennol yn gyson**

Canran y disgyblion mewn ysgolion cynradd, yn ôl AAA, 2013/14




- Disgyblion â datganiadau AAA oedd â'r ganran uchaf o absenoldeb cyson o ysgolion cynradd a gynhelir yn 2013/14. Roedd 5.0 y cant o ddisgyblion â datganiadau AAA yn absennol yn gyson. Disgyblion heb ddatganiadau AAA ar eu cyfer oedd â'r ganran isaf am absenoldeb cyson.

- Ymysg disgyblion sy'n absennol yn gyson a'r holl ddisgyblion, roedd y gyfradd uchaf o absenoldeb cyffredinol o ysgolion cynradd a gynhelir ymysg disgyblion sydd â datganiadau AAA.

- Disgyblion â statws AAA Gweithredu gan yr Ysgol oedd â'r gyfradd uchaf am absenoldeb anawdurdodedig yn 2015/16. Roedd hyn yn wir am ddisgyblion sy'n absennol yn gyson ac am yr holl ddisgyblion.

Nodwch y canran bach o ddisgyblion nad oedd yn bosib paru i ddata CYBLD.

## Tabl 3b: Absenoldeb ymysg disgyblion sy’n absennol yn gyson ac ymysg yr holl ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, yn ôl rhywedd, hawl i gael prydau ysgol am ddim, grŵp blwyddyn a statws anghenion addysgol arbennig, 2015/16 (a) (b) (c)

| | Nifer y disgyblion ar y gofrestr a oedd yn: | | Canran y disgyblion a oedd yn absennol yn gyson | Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd gan: y rheini sy'n absennol yn gyson, oherwydd | | | Pob disgybl, oherwydd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Absennol yn gyson | Pob disgybl | | Absenoldeb Awdurdodedig | Absenoldeb Anawdurdodedi | Absenoldeb Cyffredinol | Absenoldeb Awdurdodedig | Absenoldeb Anawdurdodedi | Absenoldeb Cyffredinol |
| **Rhyw** | | | | | | | | | |
| Bechgyn | 2,883 | 79,479 | 3.6 | 18.0 | 14.0 | 32.0 | 4.4 | 1.2 | 5.7 |
| Merched | 3,124 | 76,134 | 4.1 | 18.8 | 14.1 | 32.9 | 4.6 | 1.3 | 5.9 |
| Disgyblion (d) | 6,119 | 157,720 | 3.9 | 18.6 | 14.1 | 32.7 | 4.5 | 1.3 | 5.8 |
| **Hawl i Brydau Ysgol am Ddim** | | | | | | | | | |
| Yn gwybod eu bod yn gymwys i gael | 2,943 | 26,478 | 11.1 | 16.9 | 16.3 | 33.2 | 6.6 | 3.2 | 9.8 |
| Disgyblion eraill | 3,064 | 129,135 | 2.4 | 19.9 | 11.8 | 31.7 | 4.1 | 0.9 | 5.0 |
| Cyfanswm (d) | 6,119 | 157,720 | 3.9 | 18.6 | 14.1 | 32.7 | 4.5 | 1.3 | 5.8 |
| **Grŵp Blwyddyn y Cwricwlwm Cenedlaethol** | | | | | | | | | |
| Blwyddyn 6 neu lai | 0 | 0 | . | . | . | . | . | . | . |
| Blwyddyn 7 | 614 | 31,700 | 1.9 | 19.6 | 10.6 | 30.3 | 3.9 | 0.7 | 4.6 |
| Blwyddyn 8 | 937 | 31,232 | 3.0 | 19.2 | 12.0 | 31.2 | 4.4 | 1.0 | 5.4 |
| Blwyddyn 9 | 1,203 | 30,344 | 4.0 | 18.5 | 13.9 | 32.5 | 4.8 | 1.3 | 6.1 |
| Blwyddyn 10 | 1,548 | 31,327 | 4.9 | 18.7 | 14.2 | 32.8 | 4.8 | 1.5 | 6.2 |
| Blwyddyn 11 | 1,702 | 30,995 | 5.5 | 17.3 | 16.3 | 33.6 | 4.8 | 1.7 | 6.5 |
| Blwyddyn 12 neu drosodd | * | 15 | * | * | * | * | 5.4 | 5.4 | 10.8 |
| Cyfanswm (d) | 6,119 | 157,720 | 3.9 | 18.6 | 14.1 | 32.7 | 4.5 | 1.3 | 5.8 |
| **Statws Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)** | | | | | | | | | |
| Datganiad AAA | 251 | 3,787 | 6.6 | 23.3 | 10.5 | 33.9 | 5.7 | 1.4 | 7.1 |
| Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 1,298 | 11,949 | 10.9 | 18.7 | 16.1 | 34.7 | 6.3 | 2.8 | 9.1 |
| Gweithredu gan yr Ysgol | 1,406 | 23,426 | 6.0 | 16.7 | 14.8 | 31.5 | 5.4 | 1.9 | 7.3 |
| Dim AAA wedi'u nodi | 3,052 | 116,451 | 2.6 | 18.7 | 13.1 | 31.8 | 4.1 | 1.0 | 5.1 |
| Cyfanswm (d) | 6,119 | 157,720 | 3.9 | 18.6 | 14.1 | 32.7 | 4.5 | 1.3 | 5.8 |


Ffynhonnell: Cofnod Absenoldeb Disgyblion a CYBLD, Llywodraeth Cynulliad Cymru

(a) Roedd disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn 5 i 15 oed ar 31 Awst cyn dechrau’r flwyddyn academaidd.
(b) Disgyblion sy’n absennol yn gyson yw disgyblion a oedd yn absennol am o leiaf 20 y cant o’r sesiynau hanner diwrnod.
Ar gyfer 2015/16 mae hyn yn golygu bod disgyblion a oedd yn absennol yn gyson wedi colli o leiaf 76 o’r sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion cynradd neu o leiaf 62 o sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion uwchradd.
(c) Crëwyd y data drwy baru cofnodion yn y Cofnod Presenoldeb Disgyblion â’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Nid oedd disgyblion wedi’u cynnwys os nad oedd yn bosibl paru cofnodion, felly gall cyfansymiau fod yn wahanol i ffigurau a gyhoeddwyd mewn mannau eraill. Mae gwybodaeth yn yr adran nodiadau am nifer y cofnodion disgyblion a oedd wedi’u hepgor.
(d) Mae'r cyfansymiau yn cynnwys data ar gyfer pob disgybl ar y Cofnod Presennol Disyblion, nid dim ond y rheini yr oedd modd eu paru â CYBLD. Felly mae'n bosibl nad yw'r is-gategorïau yn cyd-fynd â'r cyfanswm.
"*" yn golygu bod yr eitem data yn datgelu gwybodaeth.

## Roedd bechgyn yn fwy tebygol o fod yn absennol yn gyson na merched

- Roedd canran uwch o ferched yn absennol yn gyson o ysgolion uwchradd yn 2015/16 nag o fechgyn. Roedd 4.1 y cant o ferched yn absennol yn gyson, o'i gymharu â 3.6 y cant o fechgyn.

**Canran y disgyblion mewn ysgolion uwchradd, yn ôl rhywedd, 2015/16**





- Roedd absenoldeb ymysg merched sy'n absennol yn gyson yn uwch yn gyffredinol nag absenoldeb ymysg bechgyn sy'n absennol yn gyson yn 2015/16. Wrth edrych ar yr absenoldeb ymysg yr holl ddisgyblion, mae marched dal yn uwch na bechgyn.

## Roedd disgyblion ysgol uwchradd sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim (PYADd) yn fwy tebygol o fod yn absennol yn gyson na disgyblion eraill, ac roedd mwy o'u habsenoldeb heb awdurdod

- Roedd 11.1 y cant o ddisgyblion yr oedd yn hysbys bod ganddynt hawl i gael PYADd yn absennol yn gyson o ysgolion uwchradd yn 2015/16.

- Roedd y cyfraddau absenoldeb cyffredinol yn uwch ar gyfer disgyblion yr oedd yn hysbys bod ganddynt hawl i gael PYADd nag ar gyfer disgyblion eraill. Yn 2015/16, roedd disgyblion yr oedd yn hysbys bod ganddynt hawl i gael PYADd wedi colli 9.8 y cant o sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion uwchradd. Yn yr un cyfnod, roedd yr holl ddisgyblion eraill wedi colli 5.0 y cant o sesiynau hanner diwrnod.

**Canran y disgyblion mewn ysgolion uwchradd, yn ôl hawl i gael PYADd, 2015/16**




- Roedd cyfradd yr absenoldeb anawdurdodedig yn uwch ymysg disgyblion sy'n absennol yn gyson y mae'n hysbys bod ganddynt hawl i gael PYADd nag ymysg disgyblion eraill sy'n absennol yn gyson. Roedd cyfradd yr absenoldeb awdurdodedig yn uwch ymysg disgyblion sy'n absennol yn gyson y mae'n hysbys nad oes ganddynt hawl i gael PYADd.

## Mae absenoldeb yn gyson yn cynyddu yn ôl oedran mewn ysgolion uwchradd


- Ym mlwyddyn 11 yr oedd canran uchaf y disgyblion sy'n absennol yn gyson mewn ysgolion uwchradd yn 2015/16 (5.5 y cant). Er bod cyfradd yr absenoldeb awdurdodedig yn is ar gyfer disgyblion sy'n absennol yn gyson ym mlwyddyn 11 nag ar gyfer grwpiau blwyddyn eraill, y gyfradd ar gyfer absenoldeb anawdurdodedig oedd yr uchaf.

- Ar gyfer yr holl ddisgyblion, ym mlwyddyn 11 hefyd yr oedd y gyfradd uchaf o absenoldeb cyffredinol o ysgolion uwchradd o'r holl grwpiau blwyddyn eraill yn 2015/16. Ym mlwyddyn 11 yr oedd y gyfradd

uchaf o absenoldeb anawdurdodedig a’r gyfradd gydradd uchaf o absenoldeb awdurdodedig (ar y cyd â blynyddoedd 9 a 10).

**Roedd disgyblion â statws Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy gyda’r ganran uchaf o absenoldeb cyson ymysg yr holl ddisgyblion a statws AAA**

**Canran y disgyblion mewn ysgolion uwchradd, yn ôl AAA, 2015/16**




- Disgyblion â statws Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy oedd â’r ganran uchaf am absenoldeb cyson mewn ysgolion uwchradd yn 2015/16.
- Disgyblion â statws Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy hefyd oedd â’r cyfraddau uchaf ar gyfer absenoldeb cyffredinol ac anawdurdodedig. Gwelwyd y nodwedd hon mewn disgyblion sy’n absennol yn gyson yn ogystal â’r holl ddisgyblion.
- Nodwch y canran bach o ddisgyblion nad oedd yn bosib paru i ddata CYBLD.

## Tabl 4a: Absenoldeb ymysg disgyblion sy'n absennol yn gyson ac ymysg yr holl ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd a gynhelir, yn ôl cefndir ethnig, 2015/16 (a) (b) (c)

| | Nifer y disgyblion ar y gofrestr a oedd yn: | | Canran y disgyblion a oedd yn absennol yn gyson | Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd gan y rheini sy'n absennol yn gyson, oherwydd | | | Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd gan Pob disgybl, oherwydd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Absennol yn gyson | Pob disgybl | | Absenoldeb Awdurdodedig | Absenoldeb Anawdurdodedi | Absenoldeb Cyffredinol | Absenoldeb Awdurdodedig | Absenoldeb Anawdurdodedi | Absenoldeb Cyffredinol |
| **Gwyn** | **2,873** | **188,853** | **1.5** | **18.9** | **8.9** | **27.8** | **4.0** | **1.0** | **5.1** |
| Gwyn-Prydeinig | 2,577 | 182,012 | 1.4 | 18.6 | 8.9 | 27.5 | 4.0 | 1.0 | 5.0 |
| Teithwyr | 79 | 279 | 28.3 | 28.4 | 9.0 | 37.4 | 12.0 | 4.5 | 16.5 |
| Sipsiwn/Sipsiwn Roma | 87 | 429 | 20.3 | 25.3 | 7.6 | 32.9 | 10.1 | 3.2 | 13.3 |
| Unrhyw gefndir Gwyn arall | 130 | 6,133 | 2.1 | 16.6 | 8.5 | 25.1 | 4.8 | 1.6 | 6.4 |
| **Cymysg** | **104** | **6,248** | **1.7** | **14.3** | **13.5** | **27.8** | **3.7** | **1.5** | **5.1** |
| Gwyn a Du Caribïaidd | * | 1,301 | * | * | * | * | 4.0 | 2.1 | 6.1 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | * | 925 | * | * | * | * | 3.7 | 1.4 | 5.1 |
| Gwyn ac Asiaidd | * | 1,344 | * | * | * | * | 3.7 | 1.3 | 5.0 |
| Unrhyw Gefndir Cymysg arall | * | 2,678 | * | * | * | * | 3.4 | 1.3 | 4.7 |
| **Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig** | **53** | **5,110** | **1.0** | **18.0** | **8.0** | **26.0** | **4.3** | **1.4** | **5.6** |
| Indiaidd | * | 1,303 | * | * | * | * | 3.2 | 1.3 | 4.4 |
| Pacistanaidd | * | 1,616 | * | * | * | * | 4.6 | 1.6 | 6.2 |
| Bangladeshaidd | * | 1,665 | * | * | * | * | 4.9 | 1.3 | 6.2 |
| Unrhyw gefndir Asiaidd arall | * | 526 | * | * | * | * | 3.8 | 1.0 | 4.8 |
| **Du neu Ddu Prydeinig** | ***** | **1,784** | ***** | ***** | ***** | ***** | **2.8** | **1.3** | **4.1** |
| Caribïaidd | * | 94 | * | * | * | * | 3.6 | 2.3 | 6.0 |
| Affricanaidd | * | 1,464 | * | * | * | * | 2.8 | 1.2 | 4.0 |
| Unrhyw gefndir Du arall | * | 226 | * | * | * | * | 2.5 | 1.5 | 3.9 |
| **Tsieineaidd /Tsieineaidd Prydeinig** | **0** | **419** | **0.0** | **.** | **.** | **.** | **2.3** | **0.8** | **3.2** |
| **Unrhyw grŵp ethnig arall** | ***** | **2,596** | ***** | ***** | ***** | ***** | **3.4** | **1.5** | **4.8** |
| **Anhysbys** | ***** | **1,021** | ***** | ***** | ***** | ***** | **4.2** | **0.9** | **5.1** |
| **Pob disgybl** | **3,107** | **208,532** | **1.5** | **18.9** | **9.0** | **27.9** | **4.0** | **1.1** | **5.1** |

Ffynhonnell: Cofnod Absenoldeb Disgyblion a CYBLD, Llywodraeth Cynulliad Cymru

(a) Roedd disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn 5 i 15 oed ar 31 Awst cyn dechrau'r flwyddyn academaidd.
(b) Disgyblion sy'n absennol yn gyson yw disgyblion a oedd yn absennol am o leiaf 20 y cant o'r sesiynau hanner diwrnod. Ar gyfer 2015/16 mae hyn yn golygu bod disgyblion a oedd yn absennol yn gyson wedi colli o leiaf 76 o'r sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion cynradd neu o leiaf 62 o sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion uwchradd.
(c) Crëwyd y data drwy baru cofnodion yn y Cofnod Presenoldeb Disgyblion â'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Nid oedd disgyblion wedi'u cynnwys os nad oedd yn bosibl paru cofnodion, felly gall cyfansymiau fod yn wahanol i ffigurau a gyhoeddwyd mewn mannau eraill. Mae gwybodaeth yn yr adran nodiadau am nifer y cofnodion disgyblion a oedd wedi'u hepgor.
(d) Mae'r cyfansymiau yn cynnwys data ar gyfer pob disgybl ar y Cofnod Presennol Disyblion, nid dim ond y rheini yr oedd modd eu paru â CYBLD. Felly mae'n bosibl nad yw'r is-gategorïau yn cyd-fynd â'r cyfanswm.
"*" yn golygu bod yr eitem data yn datgelu gwybodaeth.
"." yn golygu nad yw'r eitem data yn gymwysadwy.

## Tabl 4b: Absenoldeb ymysg disgyblion sy'n absennol yn gyson ac ymysg yr holl ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, yn ôl cefndir ethnig, 2015/16 (a) (b) (c)

| | Nifer y disgyblion ar y gofrestr a oedd yn: | | Canran y disgyblion a oedd yn absennol yn gyson | Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd gan | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | y rheini sy'n absennol yn gyson, oherwydd | | | Pob disgybl, oherwydd | | |
| | Absennol yn gyson | Pob disgybl | | Absenoldeb Awdurdodedig | Absenoldeb Anawdurdodedi | Absenoldeb Cyffredinol | Absenoldeb Awdurdodedig | Absenoldeb Anawdurdodedi | Absenoldeb Cyffredinol |
| **Gwyn** | **5,746** | **144,815** | **4.0** | **18.6** | **13.9** | **32.5** | **4.6** | **1.3** | **5.9** |
| Gwyn-Prydeinig | 5,558 | 141,107 | 3.9 | 18.7 | 13.8 | 32.5 | 4.6 | 1.2 | 5.8 |
| Teithwyr | * | 94 | * | * | * | * | 11.1 | 4.8 | 15.9 |
| Sipsiwn/Sipsiwn Roma | * | 167 | * | * | * | * | 7.9 | 5.6 | 13.5 |
| Unrhyw gefndir Gwyn arall | 133 | 3,447 | 3.9 | 14.4 | 14.9 | 29.4 | 4.3 | 1.8 | 6.1 |
| **Cymysg** | **156** | **3,607** | **4.3** | **14.6** | **18.6** | **33.2** | **4.1** | **1.7** | **5.8** |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 52 | 882 | 5.9 | 11.5 | 23.6 | 35.1 | 4.6 | 2.7 | 7.3 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | * | 387 | * | * | * | * | 3.9 | 1.6 | 5.6 |
| Gwyn ac Asiaidd | * | 817 | * | * | * | * | 3.9 | 1.4 | 5.3 |
| Unrhyw Gefndir Cymysg arall | 56 | 1,521 | 3.7 | 18.1 | 13.8 | 31.9 | 3.9 | 1.3 | 5.2 |
| **Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig** | **52** | **3,252** | **1.6** | **14.9** | **18.0** | **32.9** | **3.3** | **1.1** | **4.4** |
| Indiaidd | * | 612 | * | * | * | * | 2.3 | 0.8 | 3.1 |
| Pacistanaidd | * | 1,088 | * | * | * | * | 4.1 | 1.7 | 5.8 |
| Bangladeshaidd | * | 1,239 | * | * | * | * | 3.3 | 0.9 | 4.3 |
| Unrhyw gefndir Asiaidd arall | 0 | 313 | 0.0 | . | . | . | 2.2 | 0.5 | 2.7 |
| **Du neu Ddu Prydeinig** | * | **1,212** | * | * | * | * | **2.2** | **0.9** | **3.2** |
| Caribïaidd | * | 76 | * | * | * | * | 4.1 | 2.1 | 6.2 |
| Affricanaidd | * | 983 | * | * | * | * | 2.1 | 0.8 | 2.9 |
| Unrhyw gefndir Du arall | * | 153 | * | * | * | * | 2.2 | 1.0 | 3.3 |
| **Tsieineaidd /Tsieineaidd Prydei** | * | **217** | * | * | * | * | **1.5** | **0.5** | **2.0** |
| **Unrhyw grŵp ethnig arall** | * | **1,668** | * | * | * | * | **2.4** | **1.1** | **3.5** |
| **Anhysbys** | * | **842** | * | * | * | * | **4.4** | **1.0** | **5.4** |
| **Pob disgybl** | **6,119** | **157,720** | **3.9** | **18.6** | **14.1** | **32.7** | **4.5** | **1.3** | **5.8** |

Ffynhonnell: Cofnod Absenoldeb Disgyblion a CYBLD, Llywodraeth Cynulliad Cymru

(a) Roedd disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn 5 i 15 oed ar 31 Awst cyn dechrau'r flwyddyn academaidd.
(b) Disgyblion sy'n absennol yn gyson yw disgyblion a oedd yn absennol am o leiaf 20 y cant o'r sesiynau hanner diwrnod.
Ar gyfer 2015/16 mae hyn yn golygu bod disgyblion a oedd yn absennol yn gyson wedi colli o leiaf 76 o'r sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion cynradd neu o leiaf 62 o sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion uwchradd.
(c) Crëwyd y data drwy baru cofnodion yn y Cofnod Presenoldeb Disgyblion â'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Nid oedd disgyblion wedi'u cynnwys os nad oedd yn bosib paru cofnodion, felly gall cyfansymiau fod yn wahanol i ffigurau a gyhoeddwyd mewn mannau eraill. Mae gwybodaeth yn yr adran nodiadau am nifer y cofnodion disgyblion a oedd wedi'u hepgor.
(d) Mae'r cyfansymiau yn cynnwys data ar gyfer pob disgybl ar y Cofnod Presennol Disyblion, nid dim ond y rheini yr oedd modd eu paru â CYBLD. Felly mae'n bosibl nad yw'r is-gategorïau yn cyd-fynd â'r cyfanswm.
"*" yn golygu bod yr eitem data yn datgelu gwybodaeth.
"." yn golygu nad yw'r eitem data yn gymwysadwy.

**Tabl 5: Absenoldeb ymysg disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir, yn ôl darpariaeth ar gyfer angen addysgol arbennig (a) (b)**

| Statws anghenion addysgol arbennig (AAA) | Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd oherwydd: Absenoldeb cyffredinol 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | Absenoldeb Anawdurdodedig 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgolion cynradd** | | | | | | | | | | | | |
| Datganiad AAA | 8.8 | 8.5 | 8.6 | 7.4 | 7.2 | 7.2 | 0.9 | 0.8 | 0.9 | 1.1 | 1.1 | 1.1 |
| Gweithredu yn yr Ysgo | 8.2 | 7.6 | 7.7 | 6.6 | 6.4 | 6.5 | 1.4 | 1.1 | 1.1 | 1.2 | 1.2 | 1.3 |
| Gweithredu yn yr Ysgo | 8.0 | 7.3 | 7.4 | 6.2 | 6.0 | 6.1 | 1.4 | 1.2 | 1.3 | 1.4 | 1.4 | 1.5 |
| Dim AAA wedi'u nodi | 6.2 | 5.6 | 5.8 | 4.8 | 4.6 | 4.7 | 0.7 | 0.6 | 0.7 | 0.9 | 0.9 | 1.0 |
| Cyfanswm (c) | 6.7 | 6.1 | 6.3 | 5.2 | 5.0 | 5.1 | 0.9 | 0.8 | 0.9 | 1.0 | 1.0 | 1.1 |
| **Ysgolion uwchradd** | | | | | | | | | | | | |
| Datganiad AAA | 10.4 | 9.3 | 8.7 | 7.8 | 7.5 | 7.1 | 1.8 | 1.6 | 1.5 | 1.6 | 1.7 | 1.4 |
| Gweithredu yn yr Ysgo | 12.6 | 11.5 | 10.9 | 9.8 | 9.5 | 9.1 | 3.2 | 2.9 | 2.8 | 2.9 | 3.0 | 2.8 |
| Gweithredu yn yr Ysgo | 10.7 | 9.7 | 9.1 | 7.9 | 7.6 | 7.3 | 2.2 | 2.0 | 1.8 | 1.8 | 1.8 | 1.9 |
| Dim AAA wedi'u nodi | 7.8 | 7.1 | 6.6 | 5.7 | 5.4 | 5.1 | 1.2 | 1.1 | 1.0 | 1.0 | 1.0 | 1.0 |
| Cyfanswm (c) | 8.6 | 7.9 | 7.4 | 6.4 | 6.1 | 5.8 | 1.5 | 1.4 | 1.3 | 1.3 | 1.3 | 1.3 |

Ffynhonnell: Cofnod Absenoldeb Disgyblion a CYBLD, Llywodraeth Cynulliad Cymru

(a) Roedd disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn 5 i 15 oed ar 31 Awst cyn dechrau'r flwyddyn academaidd.
(b) Crëwyd y data drwy baru cofnodion yn y Cofnod Presenoldeb Disgyblion â'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Nid oedd disgyblion wedi'u cynnwys os nad oedd yn bosibl paru cofnodion, felly gall cyfansymiau fod yn wahanol i ffigurau a gyhoeddwyd mewn mannau eraill. Mae gwybodaeth yn yr adran nodiadau am nifer y cofnodion disgyblion a oedd wedi'u hepgor.
(c) Mae'r cyfansymiau yn cynnwys data ar gyfer pob disgybl ar y Cofnod Presennol Disyblion, nid dim ond y rheini yr oedd modd eu paru â CYBLD. Felly mae'n bosibl nad yw'r is-gategorïau yn cyd-fynd â'r cyfanswm.

**Prif bwyntiau**

yn 2015/16:

- Roedd absenoldeb cyffredinol wedi gostwng ymysg yr holl ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd.
- Roedd absenoldeb cyffredinol wedi cynyddu yymysg yr holl ddisgyblion mewn ysgolion cynradd.
- Roedd gostyngiad mewn absenoldeb anawdurdodedig ymysg disgyblion sydd â datganiadau AAA neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy mewn ysgolion uwchradd.

## Ysgolion cynradd

- Ymysg disgyblion â datganiadau AAA y cafwyd y gyfradd uchaf am absenoldeb cyffredinol er 2009/10. Disgyblion â datganiad Gweithredu gan yr Ysgol oedd â'r gyfradd uchaf neu gydradd uchaf am absenoldeb anawdurdodedig dros y cyfnod hwn.
- Mae cyfraddau absenoldeb cyffredinol ac absenoldeb anawdurdodedig ar gyfer disgyblion â phob math o statws AAA wedi cynyddu rhwng 2015/16, heblaw am ddisgyblion gyda datganiad o AAA lle bu gostyngiad bach dros y flwyddyn.

### Ysgolion uwchradd

- Disgyblion â datganiad Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy sydd â'r cyfraddau uchaf am absenoldeb cyffredinol ac anawdurdodedig er 2009/10.
- Cafwyd gostyngiad bach yng nghyfraddau absenoldeb anawdurdodedig ar gyfer disgyblion sydd â datganiadau AAA neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy rhwng 2014/15 a 2015/16. Er hynny, roedd y gyfradd am absenoldeb anawdurdodedig ar gyfer disgyblion gyda datganiad o AAA yn is nac unrhyw flwyddyn ers 2009/10 .

### Ysgolion cynradd ac uwchradd

- Disgyblion heb ddatganiad AAA ar eu cyfer oedd â'r cyfraddau isaf am absenoldeb er 2009/10.

## Tabl 6a: Absenoldeb ymysg disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd a gynhelir, yn ôl prif angen addysgol arbennig (a) (b) (c)

| Angen Addysgol Arbennig | Nifer y disgyblion | | | | | | Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd oherwydd: Absenoldeb cyffredinol | | | | | | Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd oherwydd: Absenoldeb Anawdurdodedig | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (AAA) mawr | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
| Anawsterau dysgu cymedrol | 25,422 | 18,815 | 15,449 | 12,899 | 10,022 | 8,902 | 8.3 | 7.6 | 7.7 | 6.4 | 6.1 | 6.2 | 1.6 | 1.3 | 1.5 | 1.5 | 1.5 | 1.6 |
| Anawsterau dysgu cyffredinol | .. | 10,618 | 13,017 | 14,964 | 16,715 | 17,509 | .. | 7.3 | 7.6 | 6.4 | 6.2 | 6.3 | .. | 1.2 | 1.3 | 1.3 | 1.4 | 1.5 |
| Anawsterau dysgu difrifol | 618 | 614 | 613 | 538 | 455 | 394 | 8.9 | 8.4 | 8.4 | 6.8 | 7.2 | 7.3 | 1.3 | 0.9 | 1.0 | 1.2 | 1.2 | 1.4 |
| Anawsterau dysgu dwys a llu | 138 | 148 | 156 | 156 | 151 | 143 | 10.6 | 9.3 | 8.9 | 9.2 | 8.7 | 8.6 | 0.5 | 0.4 | 0.7 | 1.2 | 0.9 | 1.1 |
| Dyslecsia | .. | 2,891 | 2,705 | 2,560 | 2,445 | 2,144 | .. | 6.4 | 6.6 | 5.3 | 5.3 | 5.5 | .. | 0.8 | 0.8 | 0.8 | 0.8 | 1.0 |
| Dyscalcwlia | .. | 135 | 182 | 235 | 228 | 180 | .. | 5.4 | 5.8 | 5.4 | 4.8 | 5.4 | .. | 0.7 | 0.8 | 0.9 | 0.8 | 0.9 |
| Dyspracsia | .. | 179 | 201 | 230 | 218 | 198 | .. | 5.8 | 5.9 | 4.9 | 5.1 | 4.5 | .. | 0.3 | 0.4 | 0.6 | 0.7 | 0.8 |
| Anhwylder Diffyg Canolbwynti a Gorfywiogrwydd (ADHD) | .. | 399 | 431 | 465 | 465 | 482 | .. | 7.1 | 6.7 | 5.7 | 6.0 | 6.0 | .. | 1.1 | 1.1 | 1.1 | 1.0 | 1.1 |
| Anhwylderau ar y Sbectrwm A | 1,113 | 1,227 | 1,295 | 1,411 | 1,509 | 1,684 | 8.5 | 7.8 | 7.8 | 6.8 | 6.6 | 7.0 | 0.7 | 0.6 | 0.7 | 1.0 | 1.0 | 1.2 |
| Anawsterau corfforol a meddy | 1,665 | 1,797 | 1,845 | 2,007 | 2,059 | 2,165 | 10.1 | 10.0 | 9.9 | 8.5 | 8.3 | 8.2 | 0.9 | 0.8 | 1.0 | 1.1 | 1.1 | 1.1 |
| Nam ar y clyw | 802 | 932 | 1,038 | 1,073 | 1,102 | 1,114 | 7.5 | 6.9 | 7.1 | 6.1 | 6.0 | 5.7 | 0.8 | 0.6 | 0.8 | 1.1 | 1.1 | 1.1 |
| Nam ar y golwg | 345 | 365 | 368 | 375 | 371 | 385 | 8.4 | 8.0 | 8.2 | 7.3 | 6.8 | 6.3 | 0.9 | 1.0 | 1.0 | 1.2 | 1.2 | 1.3 |
| Nam ar fwy nag un synnwyr | 22 | 14 | 18 | 22 | 23 | 25 | 8.7 | 7.1 | 9.8 | 11.3 | 10.9 | 9.9 | 0.7 | 0.2 | 1.1 | 1.2 | 1.5 | 0.9 |
| Anawsterau o ran lleferydd, ia chyfathrebu | 7,174 | 7,449 | 7,850 | 8,319 | 8,814 | 9,265 | 7.7 | 7.1 | 7.3 | 6.0 | 5.9 | 5.9 | 1.2 | 1.0 | 1.0 | 1.2 | 1.2 | 1.2 |
| Anawsterau ymddygiadol, emc a chymdeithasol | 5,244 | 5,201 | 5,599 | 5,985 | 6,411 | 6,903 | 8.4 | 7.8 | 7.8 | 6.7 | 6.4 | 6.5 | 1.6 | 1.3 | 1.3 | 1.4 | 1.4 | 1.4 |
| Anawsterau dysgu penodol | 7,024 | .. | .. | .. | .. | .. | 7.2 | .. | .. | .. | .. | .. | 0.9 | .. | .. | .. | .. | .. |
| Dim AAA | 141,947 | 141,612 | 143,832 | 148,238 | 151,656 | 154,538 | 6.2 | 5.6 | 5.8 | 4.8 | 4.6 | 0.0 | 0.7 | 0.6 | 0.7 | 0.9 | 0.9 | 1.0 |
| Cyfanswm | 193,885 | 194,897 | 197,113 | 201,891 | 205,049 | 208,532 | 6.7 | 6.1 | 6.3 | 5.2 | 5.0 | 5.1 | 0.9 | 0.8 | 0.9 | 1.0 | 1.0 | 1.1 |

Ffynhonnell: Cofnod Absenoldeb Disgyblion a CYBLD, Llywodraeth Cynulliad Cymru

(a) Roedd disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn 5 i 15 oed ar 31 Awst cyn dechrau'r flwyddyn academaidd.
(b) Crëwyd y data drwy baru cofnodion yn y Cofnod Presenoldeb Disgyblion â'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Nid oedd disgyblion wedi'u cynnwys os nad oedd yn bosibl paru cofnodion, felly gall cyfansymiau fod yn wahanol i ffigurau a gyhoeddwyd mewn mannau eraill. Mae gwybodaeth yn yr adran nodiadau am nifer y cofnodion disgyblion a oedd wedi'u hepgor.
(c) Nid oedd pob un o'r categorïau o angen addysgol arbennig yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y cyfnod rhwng 2010/11 a 2015/16.
(d) Mae'r cyfansymiau yn cynnwys data ar gyfer pob disgybl ar y Cofnod Presennol Disyblion, nid dim ond y rheini yr oedd modd eu paru â CYBLD. Felly mae'n bosibl nad yw'r is-gategorïau yn cyd-fynd â'r cyfanswm.
".." yn golygu nad yw'r eitem data ar gael.

## Tabl 6b: Absenoldeb ymysg disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, yn ôl prif angen addysgol arbennig (a) (b) (c)

| | | | | | | Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd oherwydd | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y disgyblion | | | | | Absenoldeb cyffredinol | | | | | | Absenoldeb Anawdurdodedig | | | | | |
| Angen Addysgol Arbennig (AAA) mawr | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
| Anawsterau dysgu cymedrol | 13,639 | 12,220 | 10,442 | 9,285 | 7,944 | 11.4 | 10.4 | 9.9 | 8.6 | 8.3 | 7.8 | 2.6 | 2.4 | 2.3 | 2.2 | 2.4 | 2.2 |
| Anawsterau dysgu cyffredinol | 5,592 | 7,249 | 9,026 | 10,077 | 11,018 | .. | 9.4 | 9.1 | 8.0 | 7.7 | 7.5 | .. | 1.9 | 1.7 | 1.8 | 1.8 | 1.9 |
| Anawsterau dysgu difrifol | 385 | 370 | 372 | 330 | 338 | 9.9 | 10.5 | 9.6 | 8.2 | 7.5 | 7.1 | 1.9 | 1.9 | 2.1 | 2.3 | 1.8 | 1.9 |
| Anawsterau dysgu dwys a lluosog | 59 | 74 | 77 | 73 | 69 | 10.4 | 8.1 | 8.1 | 9.4 | 7.9 | 7.0 | 0.8 | 0.1 | 0.4 | 2.1 | 1.1 | 1.4 |
| Dyslecsia | 5,854 | 5,878 | 5,814 | 5,522 | 5,031 | .. | 8.3 | 7.8 | 6.9 | 6.6 | 6.2 | .. | 1.5 | 1.3 | 1.3 | 1.4 | 1.3 |
| Dyscalcwlia | 278 | 292 | 374 | 317 | 239 | .. | 6.8 | 7.5 | 6.1 | 6.4 | 6.1 | .. | 0.8 | 1.3 | 1.1 | 1.4 | 1.3 |
| Dyspracsia | 261 | 277 | 302 | 298 | 306 | .. | 7.5 | 6.8 | 6.1 | 5.4 | 5.5 | .. | 0.7 | 0.6 | 0.8 | 0.6 | 0.8 |
| Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) | 366 | 513 | 640 | 718 | 808 | .. | 10.6 | 9.6 | 8.6 | 8.6 | 7.8 | .. | 2.9 | 2.0 | 1.9 | 2.1 | 2.2 |
| Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig | 1,371 | 1,485 | 1,566 | 1,634 | 1,724 | 8.3 | 7.8 | 7.7 | 6.7 | 6.6 | 6.6 | 1.0 | 0.9 | 1.2 | 1.1 | 1.2 | 1.2 |
| Anawsterau corfforol a meddygol | 1,587 | 1,570 | 1,527 | 1,561 | 1,525 | 12.4 | 11.6 | 11.2 | 9.5 | 8.8 | 9.2 | 1.1 | 1.2 | 1.2 | 0.9 | 1.1 | 1.3 |
| Nam ar y clyw | 732 | 762 | 783 | 791 | 834 | 9.4 | 7.9 | 8.1 | 7.1 | 6.7 | 6.4 | 1.3 | 0.9 | 1.0 | 1.1 | 1.2 | 1.2 |
| Nam ar y golwg | 320 | 338 | 340 | 349 | 338 | 10.0 | 9.7 | 8.6 | 6.6 | 6.6 | 6.8 | 0.8 | 1.1 | 1.3 | 1.0 | 0.9 | 0.9 |
| Nam ar fwy nag un synnwyr | 27 | 24 | 14 | 14 | 14 | 12.3 | 8.7 | 11.6 | 9.8 | 9.3 | 8.7 | 1.2 | 0.3 | 1.4 | 0.5 | 0.8 | 0.1 |
| Anawsterau o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu | 2,377 | 2,514 | 2,462 | 2,480 | 2,617 | 8.7 | 7.9 | 7.7 | 6.5 | 6.2 | 6.2 | 1.3 | 1.2 | 1.3 | 1.3 | 1.3 | 1.5 |
| Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol | 6,805 | 6,414 | 6,552 | 6,279 | 6,357 | 14.8 | 13.7 | 12.8 | 11.8 | 11.7 | 10.8 | 4.4 | 4.0 | 3.9 | 4.2 | 4.4 | 3.9 |
| Anawsterau dysgu penodol | .. | .. | .. | .. | .. | 9.4 | .. | .. | .. | .. | .. | 1.5 | .. | .. | .. | .. | .. |
| Dim AAA | 128,783 | 125,341 | 119,865 | 117,408 | 116,451 | 7.8 | 7.1 | 6.6 | 5.7 | 5.4 | 5.1 | 1.2 | 1.1 | 1.0 | 1.0 | 1.0 | 1.0 |
| Cyfanswm | 170,081 | 166,996 | 161,829 | 159,041 | 157,720 | 8.6 | 7.9 | 7.4 | 6.4 | 6.1 | 5.8 | 1.5 | 1.4 | 1.3 | 1.3 | 1.3 | 1.3 |

Ffynhonnell: Cofnod Absenoldeb Disgyblion a CYBLD, Llywodraeth Cynulliad Cymru

(a) Roedd disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn 5 i 15 oed ar 31 Awst cyn dechrau'r flwyddyn academaidd.

(b) Crëwyd y data drwy baru cofnodion yn y Cofnod Presenoldeb Disgyblion â'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Nid oedd disgyblion wedi'u cynnwys os nad oedd yn bosibl paru cofnodion, felly gall cyfansymiau fod yn wahanol i ffigurau a gyhoeddwyd mewn mannau eraill. Mae gwybodaeth yn yr adran nodiadau am nifer y cofnodion disgyblion a oedd wedi'u hepgor.

(c) Nid oedd pob un o'r categorïau o angen addysgol arbennig yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y cyfnod rhwng 2010/11 a 2015/16.

(d) Mae'r cyfansymiau yn cynnwys data ar gyfer pob disgybl ar y Cofnod Presennol Disyblion, nid dim ond y rheini yr oedd modd eu paru â CYBLD. Felly mae'n bosibl nad yw'r is-gategorïau yn cyd-fynd â'r cyfanswm.

".." yn golygu nad yw'r eitem data ar gael.

## Tabl 7: Absenoldeb ymysg disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir, yn ôl hawl i gael prydau ysgol am ddim (a) (b)

| | Canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd oherwydd | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Free school | Absenoldeb Cyffredinol | | | | | | Absenoldeb Anawdurdodedig | | | | | |
| meal (FSM) eligibility | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
| **Ysgolion cynradd** | | | | | | | | | | | | |
| Yn gwybod eu bod yn gymwys am PYADd | 9.3 | 8.6 | 8.6 | 7.4 | 7.1 | 7.3 | 2.1 | 1.7 | 1.8 | 1.8 | 1.7 | 1.9 |
| Disgyblion eraill | 6.0 | 5.5 | 5.7 | 4.7 | 4.5 | 4.5 | 0.6 | 0.5 | 0.6 | 0.8 | 0.8 | 0.9 |
| Cyfanswm (c) | 6.7 | 6.1 | 6.3 | 5.2 | 5.0 | 5.1 | 0.9 | 0.8 | 0.9 | 1.0 | 1.0 | 1.1 |
| **Ysgolion uwchradd** | | | | | | | | | | | | |
| Yn gwybod eu bod yn gymwys am PYADd | 13.5 | 12.7 | 12.0 | 10.7 | 10.3 | 9.8 | 3.6 | 3.5 | 3.3 | 3.2 | 3.2 | 3.2 |
| Disgyblion eraill | 7.5 | 6.8 | 6.4 | 5.5 | 5.3 | 5.0 | 1.0 | 0.9 | 0.8 | 0.9 | 0.9 | 0.9 |
| Cyfanswm (c) | 8.6 | 7.9 | 7.4 | 6.4 | 6.1 | 5.8 | 1.5 | 1.4 | 1.3 | 1.3 | 1.3 | 1.3 |

Ffynhonnell: Cofnod Absenoldeb Disgyblion a CYBLD, Llywodraeth Cynulliad Cymru

(a) Roedd disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn 5 i 15 oed ar 31 Awst cyn dechrau'r flwyddyn academaidd.
(b) Crëwyd y data drwy baru cofnodion yn y Cofnod Presenoldeb Disgyblion â'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Nid oedd disgyblion wedi'u cynnwys os nad oedd yn bosibl paru cofnodion, felly gall cyfansymiau fod yn wahanol i ffigurau a gyhoeddwyd mewn mannau eraill. Mae gwybodaeth yn yr adran nodiadau am nifer y cofnodion disgyblion a oedd wedi'u hepgor.
(c) Mae'r cyfansymiau yn cynnwys data ar gyfer pob disgybl ar y Cofnod Presennol Disyblion, nid dim ond y rheini yr oedd modd eu paru â CYBLD. Felly mae'n bosibl nad yw'r is-gategorïau yn cyd-fynd â'r cyfanswm.

**Prif bwyntiau**

Ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd:

- Mae absenoldeb cyffredinol yn uwch ymysg disgyblion sydd â hawl i gael PYADd nag ymysg disgyblion eraill.
- Mae absenoldeb cyffredinol wedi gostwng at ei gilydd ymysg disgyblion sydd â hawl i gael PYADd a disgyblion eraill er 2009/10.
- Bu'r cynydd cyntaf ers 2009/10mewn absenoldeb cyffredinol ymysg disgyblion Overall absence has increased among FSM pupils in primary schools for the first time since 2009/10.

## Ysgolion cynradd

- Er 2010/11 mae'r gyfradd absenoldeb cyffredinol ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am PYADd wedi gostwng yn fwy na'r gyfradd ar gyfer disgyblion eraill, heblaw am eleni lle bu cynnydd yn absenoldeb cyffredinol ar yfer disgyblion PYD a dim newid ar gyfer disgyblion eraill. Fodd bynga, rhwng 2010/11 a 2015/16 mae'r gyfradd absenoldeb cyffredinol ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am PYADd wedi gostwng 2.1 pwynt canran. Yn ystod yr un cyfnod, roedd y gyfradd absenoldeb cyffredinol ymysg disgyblion eraill wedi gostwng 1.4 pwynt canran.
- Bu cynnydd yn y gyfradd absenoldeb anawdurdodedig ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am PYADd a disgyblion eraill rhwng 2014/15 a 2015/16.

### Ysgolion uwchradd

- Mae'r gyfradd absenoldeb cyffredinol mewn ysgolion uwchradd wedi gostwng yn gyflymach ymysg disgyblion sy'n gymwys am PYADd nag ymysg disgyblion eraill dros y 6 blynedd diwethaf.  Ym mhob blwyddyn, roedd y gostyngiad yng nghyfradd yr absenoldeb cyffredinol oddi ar y flwyddyn flaenorol yn fwy ar gyfer disgyblion sydd â hawl i gael PYADd.
- Roedd dim newid yn y gyfradd absenoldeb anawdurdodedig mewn ysgolion uwchradd ymysg disgyblion sy'n gymwys am PYADd a disgyblion eraill yn 2015/16.

## Tabl 8a: Dosbarthiad y rhesymau dros absenoldeb ymysg disgyblion sy’n absennol yn gyson ac ymysg yr holl ddisgyblion mewn ysgolion cynradd a gynhelir, yn ôl y rheswm dros absenoldeb (a) (b)

| | | | Disgyblion sy'n absennol yn gyson | | | Pob disgybl | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Math o Absenoldeb | Cod | Rheswm dros yr Absenoldeb | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
| Awdurdodedig | I | Salwch | 48.7 | 49.4 | 46.4 | 57.2 | 60.5 | 58.6 |
| | M | Apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol | 4.6 | 5.0 | 5.0 | 6.3 | 5.9 | 5.5 |
| | R | Gwyliau Crefyddol | 0.1 | - | 0.1 | 0.4 | 0.3 | 0.6 |
| | S | Absenoldeb Astudio | - | - | - | - | - | - |
| | T | Absenolden Teithwyr | 4.3 | 4.0 | 3.8 | 0.5 | 0.4 | 0.4 |
| | H | Gwyliau Teulu y cytunwyd arno | 2.4 | 1.6 | 1.3 | 11.7 | 8.4 | 9.0 |
| | F | Gwyliau teulu estynedig y cytunwyd arno | 0.5 | 0.3 | 0.1 | 0.2 | 0.1 | 0.1 |
| | E | Wedi'i eithrio, ond heb drefnu darpariaeth arall | 1.2 | 1.2 | 1.3 | 0.3 | 0.3 | 0.4 |
| | C | Awdurdodedig arall (heb ei gynnwys yn y codau neu'r disgrifiadau eraill) | 8.5 | 8.4 | 9.8 | 4.5 | 4.3 | 4.2 |
| | | **Cyfanswm yr Absenoldebau awdurdodedig** | **70.2** | **69.8** | **67.7** | **81.1** | **80.2** | **78.8** |
| Anawdurdodedig | G | Gwyliau Teulu (heb gytuno neu sesiynau dros yr hyn y cytunwyd arno) | 3.0 | 2.9 | 3.0 | 8.0 | 9.7 | 10.5 |
| | U | Hwyr (wedi cyrraedd ar ôl i gofrestru orffen) | 2.5 | 2.4 | 2.7 | 1.1 | 1.0 | 1.0 |
| | O | Anawdurdodedig arall (heb ei gynnwys yn y codau neu'r disgrifiadau eraill) | 22.9 | 23.8 | 25.6 | 9.1 | 8.6 | 9.3 |
| | N | Heb roi rheswm am yr absenoldeb eto | 1.4 | 1.1 | 1.1 | 0.8 | 0.5 | 0.4 |
| | | **Cyfanswm yr Absenoldebau anawdurdodedig** | **29.8** | **30.2** | **32.3** | **18.9** | **19.8** | **21.2** |
| Cyffredinol | | **Cyfanswm yr absenoldeb cyffredinol** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | **100.0** |

Ffynhonnell: Cofnod Presenoldeb Disgyblion, Llywodraeth Cymru

(a) Roedd disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn 5 i 15 oed ar 31 Awst cyn dechrau’r flwyddyn academaidd.
(b) Disgyblion sy’n absennol yn gyson yw disgyblion a oedd yn absennol am o leiaf 20 y cant o’r sesiynau hanner diwrnod. Ar gyfer 2015/16 mae hyn yn golygu bod disgyblion a oedd yn absennol yn gyson wedi colli o leiaf 76 o’r sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion cynradd neu o leiaf 62 o sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion uwchradd.
"-" yn golygu nad yw’r eitem data yn sero, ond ei bod yn agos iawn at hynny, felly byddai’n cael ei thalgrynnu i lawr i sero o’i dangos i un lle degol.

**Prif bwyntiau**

Yn 2015/16 ar gyfer ysgolion cynradd:

Roedd salwch, apwyntiadau meddygol/deintyddol a gwyliau teuluol yn rhesymau llai cyffredin dros absenoldeb ymysg disgyblion sy’n absennol yn gyson nag ymysg yr holl ddisgyblion.

Roedd absenoldeb teithwyr a rheswm anawdurdodedig arall yn fwy cyffredin ymysg disgyblion sy’n absennol yn gyson nag ymysg yr holl ddisgyblion.

- Salwch oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros absenoldeb ymysg disgyblion sy’n absennol yn gyson o ysgolion cynradd, fel yr oedd ymysg yr holl ddisgyblion. Ond roedd salwch ynghyd ag apwyntiadau meddygol/deintyddol yn cyfrif am lai o absenoldeb ymysg disgyblion sy’n absennol yn gyson nag ymysg yr holl ddisgyblion. Yn 2015/16, roedd 51.3 y cant o’r absenoldeb gan ddisgyblion sy’n absennol yn gyson am y rhesymau hyn, tra oeddent yn cyfrif am 64.2 y cant o’r absenoldeb ymysg yr holl ddisgyblion.

- Gwyliau teuluol wedi'u cytuno, wedi'u hymestyn ar ôl cytuno neu heb eu hawdurdodi oedd 19.5 y cant o'r absenoldeb ymysg yr holl ddisgyblion mewn ysgolion cynradd yn 2015/16. Yn yr un flwyddyn, roedd gwyliau'n cyfrif am ddim ond 4.4 y cant o'r absenoldeb ymysg disgyblion sy'n absennol yn gyson.
- Mae absenoldeb teithwyr yn fwy cyffredin ymysg disgyblion sy'n absennol yn gyson o ysgolion cynradd nag ymysg yr holl ddisgyblion. Yn 2015/16, roedd 3.8 y cant o'r absenoldeb ymysg disgyblion sy'n absennol yn gyson yn ganlyniad i absenoldeb teithwyr, o'i gymharu â 0.4 y cant ar gyfer yr holl ddisgyblion.
- Rhesymau anawdurdodedig eraill oedd y rheswm a ddefnyddiwyd ail amlaf am absenoldeb cyson o ysgolion cynradd yn 2015/16. Yn 2015/16, rhesymau anawdurdodedig eraill oedd 25.6 y cant o'r rhesymau dros absenoldeb cyson. Yn yr un flwyddyn, rhesymau anawdurdodedig eraill oedd 9.3 y cant o'r rhesymau dros absenoldeb ymysg yr holl ddisgyblion. Mae rhagor o wybodaeth yn yr adran nodiadau am y diffiniad o *Resymau Anawdurdodedig Eraill*.

## Tabl 8b: Dosbarthiad y rhesymau dros absenoldeb ymysg disgyblion sy'n absennol yn gyson ac ymysg yr holl ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, yn ôl y rheswm dros absenoldeb (a) (b)

| | | | Disgyblion sy'n absennol yn gyson | | | Pob disgybl | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Math o Absenoldeb | Cod | Rheswm dros yr Absenoldeb | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
| Awdurdodedig | I | Salwch | 41.9 | 39.7 | 38.5 | 59.5 | 61.4 | 60.7 |
| | M | Apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol | 5.0 | 4.7 | 4.8 | 7.8 | 7.3 | 7.1 |
| | R | Gwyliau Crefyddol | - | - | - | 0.2 | 0.1 | 0.2 |
| | S | Absenoldeb Astudio | 0.3 | 0.2 | 0.2 | 0.5 | 0.3 | 0.2 |
| | T | Absenolden Teithwyr | 0.8 | 0.5 | 0.4 | 0.2 | 0.1 | 0.1 |
| | H | Gwyliau Teulu y cytunwyd arno | 0.7 | 0.4 | 0.3 | 3.3 | 2.0 | 1.8 |
| | F | Gwyliau teulu estynedig y cytunwyd arno | - | - | - | - | - | - |
| | E | Wedi'i eithrio, ond heb drefnu darpariaeth arall | 2.8 | 3.0 | 2.6 | 1.5 | 1.6 | 1.6 |
| | C | Awdurdodedig arall (heb ei gynnwys yn y codau neu'r disgrifiadau eraill) | 9.4 | 9.1 | 10.0 | 6.9 | 6.3 | 6.5 |
| | | **Cyfanswm yr Absenoldebau awdurdodedig** | **60.8** | **57.6** | **56.8** | **79.9** | **79.2** | **78.2** |
| Anawdurdodedig | G | Gwyliau Teulu (heb gytuno neu sesiynau dros yr hyn y cytunwyd arno) | 1.1 | 1.1 | 1.0 | 2.8 | 3.0 | 3.6 |
| | U | Hwyr (wedi cyrraedd ar ôl i gofrestru orffen) | 0.9 | 1.0 | 1.4 | 0.5 | 0.5 | 0.7 |
| | O | Anawdurdodedig arall (heb ei gynnwys yn y codau neu'r disgrifiadau eraill) | 35.0 | 39.5 | 40.3 | 15.3 | 16.7 | 17.2 |
| | N | Heb roi rheswm am yr absenoldeb eto | 2.2 | 0.7 | 0.5 | 1.5 | 0.5 | 0.4 |
| | | **Cyfanswm yr Absenoldebau anawdurdodedig** | **39.2** | **42.4** | **43.2** | **20.1** | **20.8** | **21.8** |
| Cyffredinol | | **Cyfanswm yr absenoldeb cyffredinol** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | **100.0** |

Ffynhonnell: Cofnod Presenoldeb Disgyblion, Llywodraeth Cymru

(a) Roedd disgyblion o oedran ysgol gorfodol yn 5 i 15 oed ar 31 Awst cyn dechrau'r flwyddyn academaidd.
(b) Disgyblion sy'n absennol yn gyson yw disgyblion a oedd yn absennol am o leiaf 20 y cant o'r sesiynau hanner diwrnod. Ar gyfer 2015/16 mae hyn yn golygu bod disgyblion a oedd yn absennol yn gyson wedi colli o leiaf 76 o'r sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion cynradd neu o leiaf 62 o sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion uwchradd.
"-" yn golygu nad yw'r eitem data yn sero, ond ei bod yn agos iawn at hynny, felly byddai'n cael ei thalgrynnu i lawr i sero o'i dangos i un lle degol.

**Prif bwyntiau**

Yn 2015/16 ar gyfer ysgolion uwchradd:

Roedd salwch, apwyntiadau meddygol/deintyddol a gwyliau teuluol yn rhesymau llai cyffredin dros absenoldeb ymysg disgyblion sy'n absennol yn gyson nag ymysg yr holl ddisgyblion.

Roedd rheswm anawdurdodedig arall yn fwy cyffredin ymysg disgyblion sy'n absennol yn gyson nag ymysg yr holl ddisgyblion.

- Yn yr un modd ag ysgolion cynradd, y rheswm mwyaf cyffredin dros absenoldeb ymysg disgyblion sy'n absennol yn gyson ac ymysg yr holl ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd yw salwch. Roedd salwch ac apwyntiadau meddygol/deintyddol hefyd yn ganran is o'r rhesymau dros absenoldeb disgyblion sy'n absennol yn gyson (43.3 y cant) nag ymysg yr holl ddisgyblion (67.8 y cant) mewn ysgolion uwchradd.
- Roedd yr holl wyliau teuluol (awdurdodedig ac anawdurdodedig) yn cyfrif am gyfran lai o'r absenoldeb ymysg disgyblion sy'n absennol yn gyson nag ymysg yr holl ddisgyblion. Yn 2015/16, roedd 1.3 y cant o'r absenoldeb o ysgolion uwchradd ymysg disgyblion sy'n

absennol yn gyson yn ganlyniad i wyliau teuluol. Roedd 5.4 y cant o'r absenoldeb ymysg yr holl ddisgyblion yn ganlyniad i wyliau teuluol.

- Rhesymau anawdurdodedig eraill oedd y rheswm fwyaf cyffredin a gafwyd am absenoldeb cysin ac yr ail rheswm fwyaf cyffredin ymysg disgyblion sy'n absennol yn gyson mewn ysgolion uwchradd.
- Tebygrwydd arall rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yw bod "rheswm anawdurdodedig arall" wedi'i gofnodi'n amlach ar gyfer disgyblion sy'n absennol yn gyson nag ar gyfer yr holl ddisgyblion. Roedd 40.3 y cant o'r absenoldeb ymysg disgyblion sy'n absennol yn gyson yn 'absenoldeb anawdurdodedig arall', tra oedd 17.2 y cant o'r absenoldeb ymysg yr holl ddisgyblion wedi'i ddynodi o dan y categori hwn yn 2015/16. Mae rhagor o wybodaeth yn yr adran nodiadau am y diffiniad o *Resymau Anawdurdodedig Eraill*.

# Nodiadau

## Polisi/gweithredol

Mae'n ofynnol bod enw pob plentyn sy'n cael addysg mewn ysgol yn ystod y diwrnod ysgol arferol yn cael ei roi ar y gofrestr bresenoldeb. Mae'r gofrestr bresenoldeb yn cofnodi presenoldeb pob disgybl ym mhob sesiwn lle mae'r ysgol yn agored i ddisgyblion a rhaid ei galw ddwywaith y dydd: ar ddechrau sesiwn y bore ac unwaith yn ystod sesiwn y prynhawn. Rhaid i'r gofrestr ddangos a yw pob disgybl yn bresennol, yn cymryd rhan mewn gweithgarwch addysgol cymeradwyedig oddi ar y safle (yn cael ei drin fel pe bai'n bresennol os yw'n cael y ddarpariaeth honno), neu'n absennol. Hefyd, lle mae plentyn o oedran ysgol gorfodol yn absennol, rhaid i'r gofrestr ddangos a oedd yr absenoldeb wedi'i awdurdodi neu heb ei awdurdodi.

Mae gwella presenoldeb yn parhau'n flaenoriaeth Weinidogol allweddol. Mae data yn awgrymu bod absenoldeb yn effeithio ar gyrhaeddiad y dysgwr unigol. Felly, mae angen i bresenoldeb aros yn flaenoriaeth i ysgolion er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i wireddu eu potensial. Mae datblygu'r Fframwaith Dadansoddi Presenoldeb wedi bod yn bwysig o ran codi proffil presenoldeb yng nghyd-destun gwella ysgolion.

Mae'r Fframwaith Dadansoddi Perfformiad yn amlinellu dull safonol a dibynadwy o ddadansoddi data. Datblygwyd y Fframwaith drwy ymgynghori â swyddogion data awdurdodau lleol, Lles Addysg a gwella ysgolion a'i bwrpas yw adnabod problemau systematig mewn ysgolion ac awdurdodau lleol, a dod o hyd.

## Ffynonellau'r data

Codwyd y data yn nhablau 1, 2, 8a ac 8b sy'n ymwneud â disgyblion sy'n absennol yn gyson o'r Cofnod Presenoldeb Disgyblion. Mae'r tablau eraill yn ymwneud â data a barwyd rhwng y Cofnod Presenoldeb Disgyblion a'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD).

Mae'r data am ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir yn y Cofnod Presenoldeb Disgyblion yn ddata am bresenoldeb ar lefel disgyblion a gasglwyd o ysgolion drwy ddull electronig, dan ofal eu hawdurdod lleol. Cesglir data o ysgolion uwchradd a gynhelir ar ôl yr ŵyl banc ar ddiwedd Mai, a chesglir data o ysgolion cynradd a gynhelir yn y mis Medi sy'n dilyn y flwyddyn academaidd. Mae CYBLD yn gyfrifiad blynyddol, a gynhelir ym mis Ionawr, sy'n casglu gwybodaeth am ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir. Cyflawnir y ddau gasgliad gan y Gyfarwyddiaeth Ystadegol yn Llywodraeth Cymru.

## Gwybodaeth allweddol o ansawdd

### Perthnasedd

Defnyddir yr ystadegau y tu mewn a'r tu allan i Lywodraeth Cymru i fonitro tueddiadau addysgol ac fel llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi pellach ar y data sylfaenol. Rhai o'r prif ddefnyddwyr yw:

- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Yr Adran Addysg a Sgiliau yn Llywodraeth Cymru.
- Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.
- Yr Adran Addysg yn Lloegr.
- adrannau llywodraeth eraill.
- awdurdodau lleol ac ysgolion.
- Swyddfa Archwilio Cymru.
- rhannau eraill o Lywodraeth Cymru.
- ymchwilwyr.
- myfyrwyr, academwyr a phrifysgolion.
- Fy Ysgol Leol.
- dinasyddion unigol a chwmnïau preifat a'r cyfryngau.

Defnyddir yr ystadegau hyn mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Rhai enghreifftiau yw:

- darparu cyngor i Weinidogion.
- pecynnau data craidd addysg Cymru gyfan (sydd wedi cymryd lle Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion).
- cymariaethau a meincnodau awdurdodau lleol ac ysgolion.
- ar gyfer y broses penderfynu ar bolisi addysg yng Nghymru.
- datblygu system categoreiddio ysgolion i Gymru.
- darparu gwybodaeth i Estyn yn ystod arolygiadau ysgolion.
- cyfrannu i'r Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol.
- meincnodi rhyngwladol.
- y parth addysg ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.
- helpu mewn ymchwil i gyrhaeddiad addysgol.

### Cywirdeb

Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos ag ysgolion ac awdurdodau lleol i sicrhau bod yr holl ddata wedi'u dilysu cyn cyhoeddi tablau. Caiff data eu coladu mewn ffurflen electronig a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru drwy DEWi, system ar-lein ddiogel ar gyfer trosglwyddo data a

ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae gwahanol gamau ar gyfer dilysu a gwirio ystyron yn awtomatig wedi'u cynnwys yn y broses i sicrhau bod y data o ansawdd uchel.

Cadarnhawyd cywirdeb y data o'r Cofnod Presenoldeb Disgyblion a CYBLD cyn cyhoeddi'r datganiadau ar absenoldeb a chyfrifiadau disgyblion. Anfonwyd y data hyn wedyn i sefydliad allanol sydd â phrofiad o baru setiau data er mwyn sicrhau bod y data terfynol o ansawdd uchel.

### Hygyrchedd ac eglurder

Rhoddwyd gwybod ymlaen llaw am y Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn a'i gyhoeddi wedyn yn yr adran Ystadegau ar wefan Llywodraeth Cymru.

### Cymaroldeb a chydlyniaeth

Oherwydd yr effaith o gau ysgolion yn rhannol o ganlyniad i dywydd eithafol yn ystod blwyddyn academaidd 2009/10 ar gyfraddau presenoldeb ysgolion, dylid arfer gofal wrth gymharu newidiadau o flwyddyn i flwyddyn.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2012/13, mae'n bosibl y bydd achosion o glefydau fel y Frech Goch wedi cael effaith anffafriol ar bresenoldeb yn yr awdurdodau lleol. Dylid arfer gofal wrth gymharu data ar lefel awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn hon.

Hefyd yn 2012/13, penderfynodd rhai ysgolion fabwysiadu safbwynt mwy pendant ar wyliau yn ystod y tymor. Ym mlwyddyn academaidd 2013/14, penderfynodd rhagor o ysgolion wneud hyn. Mae'n bosibl y bydd y penderfyniadau hyn wedi effeithio ar y cyfraddau absenoldeb yn y blynyddoedd hyn.

## Diffiniadau

### Cwmpas

Mae'r wybodaeth am absenoldeb yn y Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn yn ymwneud â chanran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd gan ddisgyblion o ganlyniad i absenoldeb awdurdodedig, anawdurdodedig a chyffredinol yn y flwyddyn academaidd gyfan ar gyfer ysgolion cynradd a gynhelir ac o ddechrau'r flwyddyn academaidd hyd yr ŵyl banc ar ddiwedd Mai ar gyfer ysgolion uwchradd a gynhelir. Dim ond disgyblion o oedran ysgol gorfodol (5-15) a gofrestrwyd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir sydd wedi'u cynnwys yn y data (ar sail eu hoed ar 31 Awst cyn dechrau'r flwyddyn academaidd).

Cafwyd y data am absenoldeb yn ôl nodweddion disgyblion yn nhablau 3a i 7 drwy baru'r data ar lefel disgyblion yn y Cofnod Presenoldeb Disgyblion â'r rheini a gafwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ym mis Ionawr. Nid oedd yn bosibl paru cofnodion yr holl ddisgyblion rhwng y ddwy set ddata, felly dim ond disgyblion a oedd yn y ddwy set sydd wedi'u cynnwys yn y tablau hyn.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y cofnodion disgyblion yn y Cofnod Presenoldeb Disgyblion yr oedd yn bosibl eu paru â CYBLD:

## Cyfraddau paru rhwng y Cofnod Presenoldeb Disgyblion a CYBLD

| | Nifer y disgyblion na chafodd eu paru | Nifer y disgyblion a gafodd eu paru | Cyfanswm y disgyblion | Canran y disgyblion a gafodd eu paru |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgolion cynradd** | | | | |
| 2009/10 | 190,903 | 3,336 | 194,239 | 98.3 |
| 2010/11 | 191,515 | 2,290 | 193,805 | 98.8 |
| 2011/12 | 192,404 | 2,479 | 194,883 | 98.7 |
| 2012/13 | 194,601 | 2,497 | 197,098 | 98.7 |
| 2013/14 | 199,477 | 2,375 | 201,852 | 98.8 |
| 2014/15 | 202,644 | 2,367 | 205,011 | 98.8 |
| 2015/16 | 206,031 | 2,472 | 208,503 | 98.8 |
| **Ysgolion uwchradd** | | | | |
| 2009/10 | 173,625 | 1,917 | 175,542 | 98.9 |
| 2010/11 | 171,407 | 1,504 | 172,911 | 99.1 |
| 2011/12 | 168,441 | 1,644 | 170,085 | 99.0 |
| 2012/13 | 165,321 | 1,671 | 166,992 | 99.0 |
| 2013/14 | 160,156 | 1,664 | 161,820 | 99.0 |
| 2014/15 | 157,136 | 1,890 | 159,026 | 98.8 |
| 2015/16 | 155,613 | 2,095 | 157,708 | 98.7 |

## Mathau o absenoldeb

Mae'r absenoldebau **cyfan** (neu '**cyffredinol**') yn cynnwys y rheini sydd wedi'u hawdurdodi ac sydd heb eu hawdurdodi:

- mae **absenoldeb awdurdodedig** yn absenoldeb sydd wedi'i ganiatáu gan athro neu rywun arall sydd wedi'i awdurdodi i gynrychioli'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys absenoldeb y rhoddwyd esboniad boddhaol amdano (e.e. salwch, profedigaeth deuluol neu gadw gwyliau crefyddol);
- mae **absenoldeb anawdurdodedig** yn absenoldeb sydd heb ei ganiatáu gan athro neu rywun arall sydd wedi'i awdurdodi i gynrychioli'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys pob math o absenoldeb sydd heb ei egluro neu ei gyfiawnhau.

Sylwer bod disgyblion sy'n ymgymryd â gweithgareddau addysgol cymeradwyedig dan oruchwyliaeth a gynhelir oddi ar safle'r ysgol (e.e. profiad gwaith neu ymweliadau addysgol) yn cael eu hystyried yn bresennol yn yr ysgol.

## Disgyblion sy'n absennol yn gyson

Disgyblion sy'n absennol yn gyson yw disgyblion a oedd yn absennol am o leiaf 20 y cant o nifer modd y sesiynau hanner diwrnod lle'r oedd ysgolion yn agored i ddisgyblion (nad yw'n cynnwys diwrnodau HMS). Bydd yr enghraifft ganlynol o'r ffordd o asesu disgyblion sy'n absennol yn gyson mewn ysgolion uwchradd yn 2013/14 yn helpu i egluro hyn:

- Y modd yw'r nifer sy'n ymddangos amlaf, felly nifer modd y sesiynau hanner diwrnod lle'r oedd ysgolion yn agored i ddisgyblion yw nifer mwyaf cyffredin y sesiynau lle'r oeddent yn agored i ddisgyblion. Yn 2013/14, roedd y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd a gynhelir yn agored i ddisgyblion am 310 o sesiynau hanner diwrnod rhwng dechrau'r flwyddyn academaidd a'r ŵyl banc ar ddiwedd Mai.
- Mae 20 y cant o'r ffigur hwnnw'n hafal i 62 (310 * 0.2 = 62) o sesiynau hanner diwrnod.

- Felly roedd disgybl a oedd yn absennol yn gyson o ysgolion uwchradd yn 2013/14 yn rhywun a oedd yn absennol am o leiaf 62 o sesiynau hanner diwrnod.

Gan fod nifer modd y sesiynau lle mae ysgolion yn agored i ddisgyblion yn newid o flwyddyn i flwyddyn ac am fod gwahaniaeth yn y cyfnod casglu data rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd (y flwyddyn academaidd gyfan ar gyfer ysgolion cynradd a hyd at ŵyl banc diwedd Mai ar gyfer ysgolion uwchradd) bydd y ffigur a ddefnyddir i bennu a yw disgybl yn absennol yn gyson neu beidio yn newid hefyd. Mae'r tabl isod yn dangos y gwerthoedd a ddefnyddiwyd i asesu absenoldeb cyson rhwng 2009/10 a 2013/14.

## Gwerthoedd a ddefnyddiwyd i gyfrifo absenoldeb cyson

| | Modd y sesiynau posibl | Nifer y sesiynau sydd angen eu colli er mwyn cael eu cyfrif fel bod yn absennol yn gyson |
|---|---|---|
| **Ysgolion cynradd** | | |
| 2009/10 | 368 | 76 |
| 2010/11 | 372 | 74 |
| 2011/12 | 372 | 75 |
| 2012/13 | 378 | 75 |
| 2013/14 | 376 | 76 |
| 2014/15 | 380 | 76 |
| 2015/16 | 380 | 76 |
| **Ysgolion uwchradd** | | |
| 2009/10 | 308 | 62 |
| 2010/11 | 308 | 62 |
| 2011/12 | 306 | 62 |
| 2012/13 | 304 | 61 |
| 2013/14 | 310 | 62 |
| 2014/15 | 310 | 62 |
| 2015/16 | 316 | 64 |

### Hawl i gael prydau ysgol am ddim

Mae plant i rieni sy'n cael y cymorthdaliadau canlynol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru:

- Cymhorthdal Incwm.
- Cymorth Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm o dan Ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999.
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm.
- Credyd Treth Plant, ar yr amod nad oes ganddynt hawl i dderbyn Credyd Treth Gwaith ac nad yw eu hincwm blynyddol yn fwy na £16,190.
- Elfen gwarant Credyd Pensiwn y Wladwriaeth.
- estyniad Credyd Treth Gwaith – y taliad y gall rhywun ei gael am bedair wythnos ychwanegol ar ôl peidio â bod yn gymwys i gael Credyd Treth Gwaith.
- Credyd Cynhwysol.

Mae plant sy'n cael lwfans cyflogaeth a chymorth yn seiliedig ar incwm, Credyd Cynhwysol, Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm drwy eu hawl eu hunain hefyd yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim.

Dim ond os yw disgyblion wedi gwneud cais am brydau ysgol am ddim i'r awdurdod lleol ac (1) bod yr awdurdod perthnasol wedi cadarnhau eu bod yn gymwys, neu (2) y disgwylir am gadarnhad terfynol eu bod yn gymwys ond bod yr ysgol wedi gweld dogfennau sy'n dangos yn gryf eu bod yn gymwys, y dylid cofnodi eu bod yn gymwys.

### Anghenion addysgol arbennig (AAA)

Gall disgyblion y mae'n hysbys bod ganddynt anghenion addysgol arbennig fod yn un o'r categorïau canlynol:

- **Gweithredu gan yr Ysgol:** Pan fydd athro dosbarth neu bwnc yn nodi bod anghenion addysgol arbennig gan ddisgybl, bydd yn darparu ymyriadau sy'n ychwanegol neu'n wahanol i'r rheini a ddarperir yn rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol.
- **Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy:** Lle bydd athro dosbarth neu bwnc a'r Cydgysylltydd AAA yn cael cyngor neu gymorth gan arbenigwyr allanol, fel y gellir darparu ymyriadau amgen sy'n ychwanegol neu'n wahanol i'r rheini a ddarperir i'r disgybl drwy 'Gweithredu gan yr Ysgol'.
- **Datganiad:** Disgyblion y mae'r awdurdod lleol yn cynnal datganiad o anghenion addysgol arbennig ar eu cyfer o dan Ran IV o Ddeddf Addysg 1996. Gall yr awdurdod lleol ddyroddi datganiad ar ôl asesu anghenion y plentyn.

### Diffiniad o *Absenoldeb Anawdurdodedig Arall*

Bydd cod penodol ar gyfer mwyafrif yr absenoldebau. Fodd bynnag, mewn rhai achosion ni fydd yn bosibl pennu cod perthnasol ac, mewn amgylchiadau o'r fath, defnyddir Cod O – absenoldeb anawdurdodedig arall. Enghreifftiau o absenoldebau o'r fath yw pen blwyddi, tripiau siopa, torri gwallt neu gau ysgol brawd neu chwaer i gynnal HMS.

### Talgrynnu a symbolau

Mewn tablau lle mae ffigurau wedi'u talgrynnu i'r digid olaf agosaf, mae'n bosibl y bydd anghysondeb ymddangosiadol rhwng swm yr eitemau sydd wedi'u cynnwys a'r cyfanswm a ddangoswyd.

Defnyddiwyd y symbolau canlynol ym mhob rhan o'r cyhoeddiad hwn:

| | |
|---|---|
| . | nid yw'r eitem data yn gymwysadwy. |
| .. | nid yw'r eitem data ar gael. |
| - | nid yw'r eitem data yn sero, ond byddai'n cael ei thalgrynnu i sero am fod y digid olaf sydd wedi'i ddangos yn llai na hanner. |
| * | mae'r eitem data yn datgelu gwybodaeth. |

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym Mawrth 2016

Gwybodaeth am ddangosyddion a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig – Sut mae mesur cynnydd cenedl? – Dangosyddion Cenedlaethol

Gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Manylion pellach

Cyhoeddwyd datganiadau ystadegol yn ymwneud ag absenoldeb o ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir ac ysgolion arbennig ac annibynnol yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16 o'r enw 'Absenoldeb o Ysgolion Cynradd, 2015/16' ac 'Absenoldeb o Ysgolion Uwchradd, 2013/14' ar 31 Awst 2016 a 15 Rhagfyr 2016.

Mae Lloegr yn cyhoeddi data am absenoldeb ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn ôl nodweddion disgyblion, yn cynnwys data sy'n ymwneud â disgyblion sy'n absennol yn gyson, yn y datganiad ystadegol 'Pupil absence in schools in England: 2015 to 2015'.

Mae'r Alban yn cyhoeddi data presenoldeb ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn ôl rhywedd, cefndir ethnig ac anghenion am gymorth ychwanegol mewn tablau o setiau data atodol.

Mae Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi data am bresenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn ôl nodweddion disgyblion, yn cynnwys rhywedd, grŵp blwyddyn a chefndir ethnig.

## Diweddariad nesaf

Mawrth 2019 (dros dro)

Fe fydd y diweddariad nesaf yn cynnwys adroddiad gyda data ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017/18.

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at ystadegau.ysgolion@cymru.gsi.gov.uk

## Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.